

ECO'R WYDDFA

RHIF 270

MEDI 2000

Pris 40c



Trowch i dudalen 12

Canolfan Addysg Llanberis

Agorwyd canolfan addysg newydd yn Llyfrgell Llanberis ddechrau'r haf. Codwyd estyniad i adeilad y Llyfrgell er mwyn datblygu yno Ganolfan Dysgu Gydol Oes fel rhan o gynlluniau Menter Ardal y Llechen. Mae'r Fenter hon yn ymwneud â'r hen ardaloedd chwarelyddol yn nyffrynoedd Peris, Ogwen, Nantlle, Ffestiniog a Chorris. Ymhlith prif bartneriaid y Fenter y mae Cyngor Gwynedd, Mantell Gwynedd, Celtec, Awdurdod Datblygu Cymru, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor.

Mae deuddeg o gyfrifiaduron yn y ganolfan newydd, a phob un ohonynt ynghlwm wrth y rhyngwyd. Byddant yn cael eu defnyddio i gynnig cyrsiau cyfrifiadurol er mwyn galluogi pobl i ddysgu defnyddio'r dechnoleg newydd. Mae'r cyrsiau wedi cychwyn erbyn hyn, ac mae'n gyfle da i bobl gael hyfforddiant a allai fod o werth iddynt yn eu gyrfa neu wrth feddwl am yrfa newydd. Mae holl adnoddau eraill y llyfrgell ar gael wrth gwrs i bawb fydd yn mynychu'r cyrsiau.

Agorwyd y Ganolfan yn swyddogol ddydd Gwener, Mehefin 30 gan Arwel Jones. Cyflwynwyd ef gan Mr Dafydd Whittall, Cyfarwyddwr Addysg a Diwylliant Cyngor Gwynedd. Cyn hynny roedd Mr Whittall wedi croesawu'r gwahoddedd-igion i'r Agoriad ac wedi diolch i bawb a gyfrannodd at y gwaith o greu'r ganolfan. Yr oedd yn addas, meddai, mai Arwel oedd yn agor y Ganolfan Dysgu o gofio iddo fod yn brifathro ysgol ac iddo gael ei fagu yn y pentref a chyfrannu cymaint i fywyd yr ardal dros y blynyddoedd.

Wrth agor y Ganolfan dywedodd Arwel ei fod yn gobeithio y byddai'n cynnig cyfleon newydd i bobl Llanberis a'r pentrefi cyfagos i'w haddysgu eu hunain fel y gwnaeth cenedlaethau o bobl yr ardal o'r blaen. Diolchodd i Gyngor Gwynedd a'r Gwasanaeth



Arwel Jones yn archwilio'r offer newydd.

Llyfrgell a phawb oedd ynglŷn â'r Ganolfan a dymunodd bob llwyddiant i'r gwaith.

Gellir cysylltu â Choleg Menai er mwyn cael rhagor o fanylion am y cyrsiau fydd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan dros y misoedd nesaf. Ffoniwch (01248) 383333.

Maes Carafanau

Mae cryn wrthwynebiad yn Llanberis i gynlluniau i ddatblygu maes carafanau newydd ar y tir dros y ffordd i Westy'r Fictoria. Bydd cais cynllunio i ddatblygu maes ar gyfer yn agos i 200 o garafanau symudol yn cael ei drafod gan Bwyllgor Cynllunio Parc

Cenedlaethol Eryri ym mis Hydref. Byddai'r tir coediog sy'n ffinio â chefn Rhesdai Fictoria, Efrog a Faenol yn cael ei ddatblygu ar ddau gam pe rhoddid caniatâd cynllunio.

Mae gwrthwynebiad mawr i'r cynllun yn lleol. Eisoes mae Cyngor Cymuned Llanberis wedi datgan ei wrthwynebiad, a deallir bod deisebau wedi eu cyflwyno ar ran holl drigolion y strydoedd uchod a'r tai eraill sy'n agos at y safle. Mae'r Cyngor Cymuned o'r fam nad oes galw am y datblygiad, ac yn pryderu ymysg pethau eraill am effaith y datblygiad ar ddiogelwch y ffordd heibio'r safle, system garthffosiaeth y pentref a golwg y safle ei hun. Ofnir y gallai amgylchiadau economaidd olygu y byddai'r safle yn cael ei ddatblygu ymhellach yn safle carafanau parhaol, a chredir bod digon o safleoedd o'r fath yn yr ardal eisoes. Hyderir na fydd aelodau pwyllgor cynllunio'r Parc Cenedlaethol yn diystyrru barn y gymuned leol wrth drafod y cais.

Ras yr Wyddfa



Kevin Prydderch, enillydd gwobr Mr H.R. Jones — i'r rhedwr cyntaf o Lanberis — yn derbyn y tlws gan Mr John Disley, Llywydd y Ras.

ECO'R WYDDFA

Rhif 270
MEDI 2000

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MISA

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
(871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

MEDI 18

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

MEDI 28

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
HYDREF	MEDI 18	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans 872407
TACHWEDD	HYDREF 16	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans 872034
RHAGFYR	TACHWEDD 20	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James 677438

Llythyrâu

Annwyl Olygydd, Brodyr Bach / Ar y Bocs Cerdyn Post

Mae Cwmni Teledu Al Fresco
yn dal i edrych am bobl i gymryd
rhan yn y tair cyfres uchod.

Ydych chi'n adnabod rhywun
neu fwy sy'n haeddu cael eu dal
gan gynllwynwyr gorau Cymru?
Cysylltwch â'r 'Brodyr Bach' ar
unwaith!

Ydych chi'n adnabod rhywun
neu rywrai a ddylai gael y cyfle
i rannu eu talent perfformio ar ail
gyfres rhaglen talent Cymru, 'Ar
y Bocs'? Canu, dawnio, dweud
jocs, chwythu tân ... mae'r rhestr
o dalentau yn ddi-ddiwedd!

Ydych chi ishio ennill gwyliau?
Mae gwyliau ar gael i'w ennill i
Awstralia, Seland Newydd,
Canada, America, Yr Eidal, ac ar
safari! Mae 'Cerdyn Post' yn aros
i glywed ganddoch.

Ydy un neu fwy yn apelio?
Cysylltwch â ni ar frys am fwy o
fanylion.

Yn gywir,
Meinir Mai Jones
Alfresco
44 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD CF11 9WJ
(Ffôn: 02920726726)
(Ffacs: 02920726727)

Annwyl Olygydd,
Mae Canolfan Gerdd William
Mathias yn barod i dderbyn
ceisiadau gan fyfyrwyr o bob oed
am hyfforddiant cerddorol i
gychwyn ym mis Medi.

Gallwn baratoi gwersi gan
athrawon megis Elinor Bennett,
Anette Bryn Parri, Mary Lloyd
Davies, Stephen Rees a llawer

mwy, i'r llais, piano, telyn,
offerynnau cerddorfaol a band,
offerynnau taro gan gynnwys cit
drymiau, ffidil draddodiadol,
theori, cyfansoddi a threfnu,
proffion clust, canu a gosod cerdd
dant, TGAU a Safon Uwch.
Hefyd bydd modd i'r myfyrwyr
fanteisio ar gyrsgau, darlithoedd
a dosbarthiadau meistr a drefnir
gan, ac a gynhelir yn y Ganolfan.

Bwriedir cychwyn yn fuan
hefyd Ysgol Linynnol Fore
Sadwrn i ddisgyblion ifanc
rhwyng oedran 5. a 10; Côr
Telynnau ac alawon gwerin; a
Dosbarth cerdd i blant meithrin.

Bydd cofrestru i'r uchod yn
cychwyn yn ystod wythnos y
4ydd o Fedi.

Os am fwy o wybodaeth nac
oedwch cyn cysylltu â'r
Gweinyddwr ar (01286)
671977, neu galwch i mewn i
Ganolfan Gerdd William
Mathias, 23 Stryd yr Eglwys,
Caernarfon, Gwynedd LL55
1SW.

Arwyddo yn y Gymraeg

Mae Cyngor Cymru i'r Byddar
newydd gyhoeddi fersiwn
Gymraeg o'r llyfr Arwyddo.

Daeth hyn i fod gydag arian
oddi wrth Fwrdd yr Iaith
Gymraeg ynghyd â sawl
ffynhonnell fasnachol.

Dyma'r tro cyntaf i'r fath lyfr
fod ar gael i Gymry Cymraeg ac
mae'n garreg filltir yn y
ddarpariaeth sydd ar gael i'r
byddar yng Ngymru.

Os am gopi, cysylltwch â:
Cyngor Cymru i'r Byddar,
Glenview House,
Courthouse Street,
PONTYPRIDD,
Rhondda Cynon Taf
CF37 1JY

Y pris yw £11 ynghyd â £3.45
am gludiant.

Rygbi i Bawb

Gyda'r tymor rygbi newydd yn
agosau, bydd sesiynau ymarfer
Clwb Rygbi Caernarfon yn ail
ddechrau. Pob nos Wener o 18
Awst, rhwng 6 a 7 o'r gloch
cynhelir sesiynau ar gyfer hogia a
genod rhwng 6 ac 11 oed.

Ar nosweithiau Mawrth, o 22
Awst ymlaen, bydd sesiynau
rhwyng 6 a 7.30 o'r gloch ar gyfer
hogia rhwyng 12 ac 16 oed.

Cyfle y genod fydd nosweithia
lau rhwyng 6 a 7.30 o 24 Awst
ymlaen.

Cynhelir y sesiynau i gyd ar
gaeau rygbi'r Clwb ar Y Morfa, ger
Ysbyty Eryri. Bydd croeso mawr i
ddechreuwyd yn ogystal â hen
wynebau.

DRAENOG



Cafodd mwy nag un o bobl
Llanbêr drafferth wrth
deithio yr haf yma. Aeth un
wraig am dro i ffair Cricieth
ben bore, a synnu o weld y lle
mor wag. 'B'RE DA, cariad,'
medda rhywun wrthi,
'Croeso i Gricieth, ond
rydach chi wythnos yn rhy
gynnar ar gyfer y ffair!'

A dyna i chi'r gŵr aeth ar
ei wyliau i Blackpool, a mynd
ar goll. Fedra fo yn ei fyw â
ffeindio'i ffordd i'r gwesty. A
be fasa unrhyw un efo dipyn
o sens yn ei wneud ar goll
mewn lle diarth? Chwilio am
blisman? Holî rhywun ar y
stryd? Nage siŵr! Ffonio
adref! Fe ffoniodd adref fwy
nag unwaith i ofyn am help
gan ei wraig a'r teulu. CRI
Siŵr o fod o'r galon.

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER

PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU ...

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol ★ Partïon rhwyng 40 a 400!
★ Gyda saws afal a stwffin ★ Efo salad hefyd os
mewn rholiau dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

Y Goron ac Yncl Tom

Dylan Iorwerth

Dw i'n gobeithio y byddai Yncl Tom yn gweld y jôc. Dryswch rhyngddo fo a T.H. Parry-Williams. Dau Domos, dau fardd.

Felly y digwyddodd hi adeg y coroni eleni a minnau, yn ôl yr arfer (mae'n debyg), wedi rhoi nodyn am fy nghefnidir i drefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol. Roeddwn i eisiau cydnabod fy nyled i dri pherson ac, yn eu plith, Yncl Tom — T.H. Williams, Y Garreg Fawr, Waunfawr.

Ond, pan ddechreuodd yr Archdderwydd siarad, sôn am T.H. Parry-Williams a wnaeth o. Am nad oeddwn i wedi esbonio'n llawn pwy oedd T.H. Williams, mi gymerodd rhywun fy mod i'n cyfeirio at y bardd enwocach o'r Rhyd-ddu.

Er fy mod i'n hoff o gerddi hwnnw, doeddwn i erioed wedi ei gyfarfod ac, yn sicr, ar waetha' fy moelni maith, doeddwn i ddim yn ddigon hen i fod wedi eistedd wrth ei draed a dysgu ganddo.

Doeddwn i ddim wedi bod yn mynd draw i'w fferm o ar ddydd o haf a chael te. Doeddwn i ddim wedi ei glywed o'n adrodd am hanesion y Mwgwd Du, yr ysbryd yn y chwarel. Ac, yn sicr, doedd o erioed wedi bod yn fy annog i ysgrifennu trwy ganmol fy mhenillion tila i'r cymylau. Yncl Tom oedd hwnnw.

Roedd T.H. P-W yn glamp o fardd, ond doedd o ddim wedi sgrifennu cannoedd o benillion i eisteddfod Capel Bethel a doedd o ddim wedi cyfansoddi dwsinau o emynau i'w canu mewn oedfaon yno. Roedd ei gerddi'n

dda, ond doedden nhw ddim yn gyfeiliant i fywyd cymdeithasol y Waun am dalp helaeth o'r ganrif ddiwetha'. Yncl Tom oedd hwnnw.

Dyna pam yr oeddwn i eisio crybwyll Y T.H. Williams ym mhafiliwn y Genedlaethol. Nid T.H. P-W ond y T.H.W. oedd yn cyfansoddi penillion ar gyfer cardiau Cyfres Eryri, pan oedd cardiau Cymraeg yn bethau rhyfeddol o brin. I blentyn sy'n dechrau sgrifennu, dylanwad cartrefol rhywun fel fo sy'n cyfri', nid cerddi beirdd cenedlaethol.

Felly yr oedd hi efo un arall o'r tri yr oeddwn am eu henwi — Katie Jones (Williams wedyn), fy athrawes gynta' ar ôl cyrraedd ysgol gynradd Waunfawr. Rydw i'n dal i'w chofio hi'n mynd â ni am dro ar lan afon Gwyrfa'i ac yn adrodd llinell Eifion Wyn am 'glywed y migwyn' dan wadn ei droed. Pethau fel'na sy'n ysbrydoli.

Y trydydd oedd Emrys Edwards, y prifardd a oedd yn athro Ysgrythur yn Ysgol Syr Hugh Owen. Ond athro cynganeddion oedd o i mi, a'i wybodaeth a'i synnwyr o hwyl a direidi yn ei droi yn gyfaill.

Mi allwn i fod wedi enwi rhai eraill — yn y Weun a'r ysgol uwchradd — ond roeddwn i wedi dewis tri, ac Yncl Tom yn eu plith. Llythrennau oedd T.H.P-W, ffrind annwyl oedd Yncl Tom.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

Undeb Credyd

Galw am agor Cangen o'r Undeb Credyd yn ardal Llanberis

Hoffech chi fod yn aelod o fanc sy'n rhoi pobl yn gyntaf ac sy'n gweithredu er budd y gymuned? — yna beth am agor cangen o Undeb Credyd Y Llechen yn ardal Llanberis.

Lawnsiwyd Undeb Credyd Y Llechen ym mis Chwefror eleni ac mae'n croesawu aelodau newydd bob wythnos. Math o fanc cymunedol yw'r undeb credyd sy'n galluogi pobl i gynilo a benthyca arian yn lleol.

Yn wahanol iawn i fanciau'r stryd fawr, tydio ddim yn gweithredu er mwyn gwneud elw ac mae'n cynnig gwasanaeth ariannol teg a rhesymol i bobl lleol. Mae hyn yn cynnwys telerau benthyca ffafriol.

'Mewn cyfnod pan mae'r banciau yn troi eu cefn ar ardaloedd gwledig mae gwasanaeth fel hyn yn gynyddol bwysig,' meddai Cadeirydd Y Llechen Geoff Hewitt. 'Mae undebau credyd yn medru dod a manteision cymdeithasol ac economaidd i unigolion, teuluoedd a chymunedau.'

Gwirfoddolwyr sy'n rhedeg Y Llechen ac maent wedi agor canolfannau casglu ym Mantell Gwynedd, Caernarfon ac yng Nghanolfan Y Cyfeillion, Bangor. Mae'r canolfannau'n agored bob dydd Gwener rhwng

11.30 a 1.30 pm a dylai'r rhai sydd am ymuno ddod a dau fath o I.D. efo nhw.

Eisoes bu galw am agor canolfan gasglu yn ardal Llanberis ac yn ôl Mr Hewitt y cwbl sydd ei angen yw gwirfoddolwyr lleol i redeg canolfan o'r fath.

'Tydi'r gwaith ddim yn anodd a byddai'r gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant sylfaenol ar y syniad o undebau credyd ac ar sut i redeg canolfan gasglu,' meddai. 'Mae angen isafswm o dri pherson fyddai'n gallu rhoi tair awr yr wythnos o'u hamser i'r undeb credyd.'

Mae'r undeb credyd yn codi tâl aelodaeth o £1 cyn dechrau cynilo, a gall aelodau newydd geisio benthygiad ar ôl cynilo am dri mis. Does dim costau cudd o gwbl ac, yn gyfreithiol, ni all undebau credyd godi mwy na 1% o log y mis ar fenthyciadau. Mae pob undeb credyd wedi eu cofrestru felly mae eich arian yn hollol saff.

Y Llechen yw'r undeb credyd cyntaf yng Ngwynedd ac mae'n cynnig gwasanaeth i bobl sydd yn byw neu yn gweithio yn ardal yr hen Arfon. Os hoffech wirfoddoli neu os hoffech fwy o wybodaeth am Y Llechen ffoniwch Geoff Hewitt rhwng 9am - 12pm ar (01248) 353360 neu ysgrifennwch at Undeb Credyd Y Llechen, Canolfan yr Esgobaeth, Clôs y Gadeirlan, Bangor.

antur WAUNFAWR

Digwyddiadau mis Medi 2000

nos Wener, 15

dathlu Gŵyl Owain Glyndwr

ymunwch â'n dathliad arbennig ar gyfer Gŵyl Owain Glyndwr - gwledd Cymreig 3-chwrs adloniant a chwedlau am ein harwr £16 yr un

Rhaid archebu cyn 11 Medi 2000

dydd Sadwrn, 23

Ras 10k yr Antur
a Ras Hwyl i blant

gyda Dafydd Du, Radio Cymru

nos Wener, 29

Gŵyl y Gwyl

cyfle arall i fwynhau bywyd hwyrnos y Parc Natur, y sêr, gwyfynnod, ystlumod, ac eleni cyfle i ddysgu rhai o ddirgelion ein tylluanod brodorol

cofiwch ei fod yn amser dechrau meddwl am ddathliadau'r Nadolig - bydd caffi 'Blas y Waun' yn paratoi prydau Nadolig mewn safle bendigedig am brisiau rhesymol

am fwy o fanylion ffoniwch 01286 650 721

www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

1900 2000
CANMLWYDDIANT
YSGOL BRYNREFAIL

CYNGERDD

NOS WENER
Medi. 29ain. am 7 yr hwyr
YN NEUADD
YSGOL BRYNREFAIL

LLU O
ARTISTIAID
ADNABYDDUS

Gwyn Parri, Rhian Cadwaladr, Emlyn Davies, Maureen Rhys
Stephen Edwards, Dafydd Du, Emyr Gibson, Eilian Wyn, Martin Thomas

Yn Cyflwyno

DISGYBLION, CYN DDISGYBLION A CHYFEILLION YR YSGOL

SIÂN WYN GIBSON • RHIAN OWEN • TIM WARD • HOGIA'R WYDDFA

MARI WYN • LINDSEY VAUGHAN PARRY • MICHELLE ROBERTS

ANNETTE BRYN PARRY • GENOD TY'R YSGOL • SIONED MELERI

ARIA • GWLITH • BAND LLANRUG A DEINIOL • EPITAFF • CABAN

BAND JAS YSGOL BRYNREFAIL

CORAU UNEDIG Y FRO

COR MEIBION DYFFRYN PERIS • CLYCHAU'R GRUG • LLEISIAU LLIWEDD
LLEISIAU'R GWEUNYDD • COR WAUNFAWR

TOCYNNAU - £4. OEDOLION • £2. PLANT / PENSIYNWYR
AR GAEL YN YR YSGOL - (01286) 672381

CHWILOTA

O Chwarel Dinorwig . . . Gwasanaeth Coffa



"Nith ludd ing,
Nith ladd angau."

Gwasanaeth Coffa

(Memorial Service)

am

Fechgyn Caban "Steam Mills"
a aberthasau eu bywydau
1939 — 1945

WYN GRIFFITH.	GRIFFITH BEVAN LEWIS
ARTHUR WYN HUGHES.	DAVID CLOSS MORRIS
OWEN WYN HUGHES.	JAMES PARRY
KENNETH JONES.	THOMAS ROWLANDS
ELLIS ARVON JONES.	SAMUEL ROBERTS
EDWARD JONES.	HUGHIE THOMAS
DAVID R. JONES.	LEOF THOMAS
ELFED JONES.	GWILYM M. WILLIAMS
CHARLES JONES.	GRIFFITH J. WILLIAMS
EVAN LEWIS JONES.	ROBERT WILLIAMS

Cynhelir y Gwasanaeth yn y Caban, Mai 23ain, 1950

Argraffwyd gan Parry a'i Feibion, Pen-y-groes.

Yn ystod yr haf daeth i'm meddiant daflen Gwasanaeth Coffa a gynhaliwyd yng Nghaban 'Steam Mills', Chwarel Dinorwig ar 23 o fis Mai, 1950. Bwriad y gwasanaeth oedd coffau bechgyn y caban a gollasant eu bywydau yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a dadorchuddio cofeb iddynt. Roedd yn amlwg fod trefniadau manwl wedi eu gwneud ar gyfer yr achlysur, a dim llai na phump o weinidogion yr ardal yn cymryd rhan yn y gwasanaeth, sef y Parchedigion

Llewelyn Boyer, E.G. Williams, W. Gwyn Thomas, J.H. Williams ac S.O. Tudor.

Mae'n ymddangos hefyd fod y gweithrediadau yn uniaith Gymraeg ar wahan i un emyn Saesneg (O! God our help in ages past). O bosibl fod yr emyn hwn wedi ei ganu oherwydd presenoldeb Syr Michael Duff Assheton Smith, a ddaeth yno i ddadorchuddio'r gofeb. Yn ystod y gwasanaeth coffa, cafwyd anerchiadau a darllen penillion coffa. Canwyd y Last Post gan

Tommy Williams (aelod o pa fand lleol?)

Tybed oes darllenwyr yn cofio mynychu'r cyfarfod hwn?

Cystadleuaeth Holli a Naddu

Yn ystod y 1950'au roedd hi'n arferiad cynnal cystadleuaeth holli a naddu llechi ar Gae'r Ddôl, Llanberis. Arferai'r chwarelwyr alw'r gystadleuaeth yn 'brimin' (effaith mewnfudwyr o Fôn tybed?). Yn y chwarel ei hun, roedd clwt o lechyn yn arfer rhoi 16 o lechi 20x10 modfedd; yr hyn a gâi ei alw'n gyffredin yn 'glwt dau dew wyth'.

Yn y gystadleuaeth, byddai clytiau o lechi wedi eu cario o'r chwarel yn y bore, a'u gosod ar y ddôl yn barod i'w holli a'u naddu. Byddai angen i bob cystadluydd holli 15 o lechi allan o glwt — a dim ond wyth munud a ganiateid i wneud hynny — a'u naddu i'r maint cywir hefyd. Oherwydd fod y cyfanswm un llechen yn fyr i'r arferol, rhoddai hynny fwy o brawf ar ddawn a chreffft yr holltwr.

Am ba hyd tybed y bu'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal, ac ar ba amser o'r flwyddyn y cynhelid hi? Byddai'n ddiddorol cael atgofion rhai o'r chwarelwyr a gymerodd ran yn y cystadlu, a rhestr o'r enillwyr dros y blynyddoedd. Gwell fyth fyddai cael llun o'r gystadleuaeth.

Postmon Bethel ac Emynydd y Bedyddwyr

Daeth cais i law am unrhyw wybodaeth ynglŷn â Robert Meigant Jones (1851-1899). Hannai yn wreiddiol o Sir Ddinbych a daeth i Gaernarfon i ddilyn gyrfa fel teiliwr ond, pan ddarfu'r busnes, cafodd waith yn bostmon gyda chyfrifoldeb am yr ardal ar hyd Lôn Bethel, Caernarfon, ac ymlaen i Fethel gan alw yn y gwahanol ffermydd ar y ffordd. Roedd yn aelod gyda'r Bedyddwyr yng Nghapel Caersalem, Caernarfon ac yn ysgrifennwr emynau.

Cyhoeddwyd 18 o'i emynau yng nghasgliad cyntaf y Bedyddwyr, ac y mae 16 o'i emynau yn parhau yn yr ail gasgliad. Eto i gyd, does dim o'i hanes yn y Bywgraffiadur, er fod emynwyr llai toreithiog nag ef yn cael sylw.

Tybed oes unrhyw aelodau o deuluoedd y ffermydd a'r tai yn ardal Caernarfon-Bethel yn cofio clywed atgofion am y postmon o emynydd?

Pam 'Tŷ Cloc'?

I'r rhai ohonoch sy'n teithio i Lanberis, mae'n debyg eich bod wedi sylwi ar yr enw 'Tŷ Cloc' ar waelod Gallt Chwarel y Glyn. Mae'r enw'n bod ers talwm, wrth gwrs, ar lafar, ac amryw yn cofio'r cloc ar dalcen y tŷ. Ond ai dyna'r rheswm pam y'i galwyd yn 'Tŷ Cloc'? Oedd a wnelo'r enw ryw beth â Chwarel

Glynrhonwy, ynteu enw diweddarach ydyw. Anfonwch unrhyw wybodaeth neu syniadau pam y galwyd y lle yn 'Tŷ Cloc'.

Marwnadau

Peth go ddieithr erbyn heddiw yw clywed am unrhyw un yn sgwennu marwnad i goffau person a fu farw; mae'n fwy tebygol i fardd lleol lunio englyn coffa. Ond roedd sgwennu marwnad — a hwyaf yn y byd, gorau'n y byd — yn beth cyffredin ers talwm, a'r rheini wedyn yn cael eu cyhoeddi'n bamffledi bychain. Yn wir, roedd yn arferiad cyffredin cynnal cystadlaethau mewn eisteddfod a chyfarfod diwylliannol i ysgrifennu marwnad i berson lleol go amlwg a fu farw yn ystod y flwyddyn.

Dyna'n union a ddaeth i law yn ystod yr wythnosau diwethaf, sef marwnad i Robert G. Williams o Bryn Hafod, Llanrug a fu farw Ionawr 8, 1894. Cynigiwyd gwobr yng Nghylchwyll Lenyddol Cyfrinfa Glanrhyddallt ym mis Mawrth 1895 am farwnad i'r uchod. (Gyda llaw, cymdeithas ddirwestol oedd y 'gyfrinfa', gyda'r aelodau'n perthyn i fudiad y Rechabiaid).

Deiniolfryn, sef W.J. Hughes, o Ebenezer oedd y buddugol. Mae'n farwnad faith, ac yn arbennig o drwm a beichus i ddarllenwyr heddiw. Prin ei bod hefyd yn rhoi unrhyw wybodaeth am Robert Williams; a gellid ei 'haddasu' ar gyfer unrhyw fachgen ieuanc arall a fu farw o'r ardal hon yn yr un cyfnod.

Dyma enghraifft o'r math o linellau a geir yn y gerdd hir: 'Aeth rhai o'i gyfoedion yn uwchach mewn dysg, Maent heddiw yn tywallt goleuni i'n mysg; Aeth yntau i'r gloddfa fel bechgyn y fro, Fel llanciau Eryri yn dô ar ôl tô.'

Unwaith yn unig yr enwir Robert yn y gerdd, a cheir dau gyfeiriad at ei gartref, ac un at Lanrug. Ac yn naturiol, fel yn y marwnadau eraill o'r un cyfnod, sonnir am fywyd di-lychwin, ffyddlondeb i grefydd a chefnu ar bechodau'r oes. Does ryfedd:

'I'r anghel a ddygodd fab bychan mor dlws

I lawr o Fryn Hafod, fynd adref drwy'r drws!'

Eryn i rifyn nesaf yr 'Eco' ddod o'r wasg bydd dathliadau Ysgol Brynrefail wedi bod, a siawns na fydd mwy o atgofion i'w cyhoeddi. Gyda diolch i amryw o'r darllenwyr sydd wedi cysylltu â mi yn cynnig benthg gwahanol eitemau ar gyfer yr arddangosfa. Rwy'n dal i chwilio am y gadair eisteddfodol gyntaf i'w hennill gan fachgen!

Cysylltwch ynglŷn ag unrhyw agwedd ar hanes lleol: Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515).

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Un funud fach . . .

I.R.

Mae'r Traceys nôl ar y teledu. Caiff canhedlaeth newydd o blant weld aelodau'r teulu yn atal trychinebau ym mhob cwr o'r byd. Gwelir International Rescue unwaith eto'n ymateb i argyfyngau mawr, ac yn arbed cannoedd o fywydau yn eu byd pypeddaidd.

Ond mor wahanol yw hi yn y byd go iawn, fel y dangoswyd yn ddiweddar gan drychineb llong danfor y Kurst. Suddodd i waelod y môr a chollwyd dros gant o forwyr Rwsiaidd. Cyndyn iawn fu'r Rwsiaid i geisio help gwledydd eraill, er ei bod yn amlwg bod gan Norwy a Phrydain offer addas at y dasg. Fel y digwyddodd, oherwydd natur y difrod i'r llong, mae'n debyg na fyddai neb wedi gallu helpu'r trueiniaid beth bynnag. Ond tra roedd gobaith bod y morwyr yn dal yn fyw, methai'r byd â deall pam nad oedd Rwsia yn barod i geisio help.

Rhyw gyndynrwydd tebyg sy'n rhwystro pobl rhag ceisio help yr Arglwydd Iesu Grist. Go brin bod y Rwsiaid heb sylweddoli mor ddifrifol oedd yr argyfwng. Ond mae miloedd o bobl, hyd yn oed yng Nghymru, heb weld mor ddifrifol yw hi arnyn nhw heb Grist.

Tybed oedd y Rwsiaid yn gwrthod gofyn am help am eu bod yn credu y gallen nhw ddatrys yr argyfwng eu hunain? Roedd ganddyn nhw offer, ond wrth i'r dyddiau fynd heibio daeth yn amlwg nad oedd hwnnw'n ddigon da o'r hanner. Ac er i rai pobl wybod am Dduwa'r Gyfraith, mae'n nhw'n credu bod y gallu ganddynt i blesio Duw. Mae'n nhw'n ddigon hyderus nad oes angen iddyn nhw weiddi am gymorth y Gwaredwr.

Neu tybed oedd y Rwsiaid yn gyndyn o geisio cymorth am fod ganddyn nhw arfau i'w cuddio ar y Kurst? Mae gan bawb ohonom bethau yr hoffem eu cuddio oddi wrth ein gilydd ac oddi wrth Dduw. Ond gorau po gyntaf y cyffeswn bob bai a phechod i'r Brenin Mawr, ac ymddiried yn ei Fab Iesu i'n hachub rhag cael ein gwrthod ganddo am byth. Dim ond Iesu all ein hachub.

JOHN PRITCHARD

**Cefnogwch ein
Hysbysebwyrr**



G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

Mwy o hanes Bethan yn Nepal

4/10/99

Dw i wedi bod yma ers dros fis rwan, felly dyma ambell i atgof o'r dwyrain pell sy'n glynu i'm meddwl hyd yn hyn.

Twmba!

'Beth am yfed Twmba?' sibrydodd Santosh un diwrnod. Arwyddais y ddeiseb yn ddall! Felly ar un nos Wener wyllt am bedwar yn y pnawn aeth y pedwar ohonom i yfed Twmba — fi, Sarah a dau athro 'cyfrifol', Santosh a Phukaka.

Drwy'r pentref, i lawr y lôn ac i bellteroedd y mynydd fel na allai clustiau'r pentref ein clywed yn sipian y diod meddwol.

Cyrhaeddodd y pedwar ohonom siop ddigon cyffredin ar yr olwg gyntaf, ond wrth fynd i gefn y siop datgelwyd ystafell y weithred, ystafell dywyll ag ambell i ddyn yn yfed ei 'beint'.

Gorffwysodd pawb a dechrau cymdeithasu tra roedd y plant yn paratoi Twmba. Wedi hir ymaros daeth 4 potyn metel a gwelltyn metel wedi ei leoli yn nhwll y caead. Wrth sugno ar y diod daeth yna flas gwin cynnes i'ngheg. Grêt! Daeth blas y gwin yn gryfach, a chryfach nes yn y diwedd ei fod wedi llenwi fy mhen!

Wedi llawer o siarad meddw, ambell i gêm a llond lle o chwerthin roedd hi bellach yn bum munud wedi saith. Rhaid oedd bod adref am saith ac roedd yna dipyn o daith cyn cyrraedd! Gan dalu'r ddyled o 80c aethom adref i gyfeiliant 'Barbie Gril' a phawb yn ceisio cario ei gilydd ar eu cefnau, ond yn ofer.

Roedd 'mam' yn ein disgwyl a'r swper ar y bwrdd — yn oer ac yn galed. Rhaid oedd ei fwyta, er fod ein boliau'n llawn cydwybod.

Ffwfwbol

Dio'm bwys lle ma' rhywun yn y byd, mae pawb yn hoffi pêl-droed, a dydy Nepal ddim yn wahanol. Roedd pawb wedi bod i fewn ac allan o'r lolfâ pitw ers wythnosau bellach yn gwyllo gemau cyn-derfynol cwpan De

Asia, gan fod ein teulu ni'n un o'r rhai prin a oedd yn berchen teledu. Ond heno, roedd pawb wedi ymgynnull ar gyfer y ffeinal — Nepal yn erbyn India.

Roedd y lolfâ'n llawer rhy fach felly cafodd ystafell Sarah a fi ei thrawsnewid yn bictiws dros dro. Cuddiais fy nheclynnau Gorllewinol cyn gadael y dwyreiniaid i fewn. Teimlais yn euog am amau y bobl a oedd yn fy nghroesawu i'w gwlad.

Ceisiodd pawb fachu sê — y cadeiriau a'r gwlaŵ i'r teulu a'r henoed, y llawr i bawb arall. Roedd y teledu'n fychan ond yn hawlio sylw pob llygad — hen ac ifanc. Dechreuodd y gêm. Sylodd pawb ar y sgrin a daeth yr un cwestiwn i feddwl pawb, p'r un ydy Nepal? Y du hefo'r streipiau gwyn ynteu'r gwyn hefo'r streipiau du? Methodd y teledu du a gwyn wahanu'r ddau dim.

Daeth y fam i fewn hefo'r babi a gwnaeth y bechgyn le iddi'n syth, ar y llawr. Diolchodd hithau ac eistedd yno'n fodlon ar ei safle, ar lawr.

Collodd Nepal. Ond am yr awr a hanner yna teimlais rhyw fath o undod. Undod rhwng y bobl dramor a'r Nepali, yr ifanc a'r hen a rhwng dyn a dynes. Pawb yn y stafell yn mwynhau cwmni ei gilydd. Pawb yno am yr un rheswm — i wyllo pêl-droed.

Siôn o Iwrob



Darlun o Siôn Rees Williams LLB (Hons), Allt Riwth, Pontrhythallt, gyda'i gyfeilles y Dr Sabine Heingz, Prif Ddarlithydd mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Berlin, wedi iddo gael ei urddo yn Eisteddfod Llanelli eleni. Mae'r Dr Heingz yn ymwelydd blynyddol â'r Eisteddfod, yn rhugl yn y Gymraeg a'i diddordeb yn fawr mewn popeth Cymreig.

Fel swyddog cyhoeddusrwydd Cymry Paris dywedodd Siôn: 'Fel rhan o'n dathliadau yn ystod blwyddyn 600 mlwyddiant gwrthryfel Glyndŵr, anfonasom gynrychiolaeth daer at Arlywydd Ffrainc yn gofyn am ddychweliad llythyr Pennal, pe bai ond tros dro. Roedd hyn yn rhoi cyfle i ni hefyd i ddangos ein bod yn bodoli.'

Urddwyd ef fel 'Siôn o Iwrob'.

Cwmni Theatr Gwynedd a Sgript Cymru yn cyflwyno

Dwy o ddramâu Meic Povey

DIWEDD Y BYD: Cyfarwyddydd Sian Summers

YR HEN BLANT: Cyfarwyddydd Bethan Jones

(Anaddas i blant oddi-tan 16 mlwydd oed)
yn Theatr Gwynedd, Bangor (01248) 351708

Actorion:

Dafydd Dafis, Kath Dimery, Gwenno Ellis Hodgkins,
Maldwyn John a Betsan Llwyd

Nos Iau, 21 Medi 7.30yh

DIWEDD Y BYD

Nos Wener 22 Medi 7.30yh

YR HEN BLANT

Nos Sadwrn 23 Medi 7.3yh

DIWEDD Y BYD a
YR HEN BLANT

Nos Fawrth 26 Medi 7.30yh

DIWEDD Y BYD

Nos Fercher 27 Medi 7.30yh

DIWEDD Y BYD a
YR HEN BLANT

Nos Iau 28 Medi 7.30yh

YR HEN BLANT

Nos Wener 29 Medi 7.30yh

DIWEDD Y BYD a
YR HEN BLANT

Hanes Ellis Williams, Fferm y 'Gors', Penisarwaun, Plwy Llanddeiniolen, Sir Gaernarfon, 1880-1918

Mae'r manylion yma wedi eu seilio ar nifer o lythyrau oedd wedi eu cadw gan chwaer Ellis Williams, sef Phoebe Hughes, Bod Ifor, Rhythallt Terrace, Llanrug. (Bod Ifor ydi'r tŷ sydd wedi ei ddangos fel cartref Wali Tomos yn y gyfres deledu 'C'mon Midffild.)

Cartref Ellis Williams oedd fferm y Gors, Y Waen, Penisarwaun, yn agos i Ddinas Dinorwig (caer Brydeinig) ac yn agos i Gapel Glasgoed a Ffynnon Cegin Arthur. Ei rieni oedd Ellis ac Anne Jane Williams. Phoebe oedd y plentyn hynaf, Ellis yr ail, wedyn Harriet Ann a ymfudodd i Ganada gyda'i theulu yn 1920. Wedyn roedd Joseph a fu'n ffermio y Gors am flynyddoedd ac yn dad i'r awdur John Ellis Williams. Roedd y fferm yn eiddo i Stad y Faenol ac, fel yr enw, yn dir corsio iawn ac ar y gwastad rhwng Penisarwaun a Phentir.

Fe aeth Ellis i dipyn o drafferth pan gafodd ei gyhuddo o botsio ffesant ar dir y fferm ac wrth gwrsoeddynt yn eiddo i'r Faenol. Bu rhaid iddo adael y wlad neu buasai'r teulu yn colli'r fferm. Roedd tua 28 oed.

Yn 1908 aeth i Batagonia lle roedd yn gweithio fel Gaucho. Yn y mynyddoedd roedd y dynion yn byw mewn gwersyll ac yn cydweithio i fagu defaid a cheffylau. Roedd Ellis yn sôn yn ei lythyrau bod ganddo 1000 o ddefaid ac am y cheffylau yn mynd yn dew ac yn anodd eu dal. Roedd yn sôn am reidio cheffyl 70 o filltiroedd y dydd ar ei ffordd i lawr i'r dyffryn. Byddai yn aros yn Glan Alaw, Dolafon, Chubut am gyfnod o orffwys.

Mae yn sôn am ymweld â'r Eisteddfod a chyfarfod ag adroddwr â'r ffugenw Glan Eifion o Sir Fôn, mab i fferm. Yr adroddwr gorau yn y Wladfa. Mewn un llythyr mae yn sôn am ffermwr yn mynd yn ôl i Gymru ac ymweld â'r Gors, ac Ellis yn gobeithio y buasai'r teulu yn rhoi croeso iawn iddynt oherwydd cymaint y croeso iddo ef yn eu cartref hwy.

Yn un llythyr mae yn sôn am lawer o farwolaethau, a rhai wedi boddi yn yr afon wrth ymdrochi. Mae'n sôn mor boeth ydi — 121 gradd F. Hefyd i fachgen ieuanc gael ei ladd pan syrthiodd ei geffyl ar ei gefn — mab i ddyn o Fethesda — stiward amser y streic, a grogodd ei hun.

Yn mis Tachwedd 1910 roedd yn sôn am fod yn y Dyffryn eto a'i bod yn ddrwg iawn — pla o lindys wedi mynd a'r crop alfalfa mewn wythnos. Roeddynt fel cwmwl ar yr haul am ddyrnodiau. Mae hefyd yn sôn am fagu moch — brid tebyg i fochyn gwyllt ac yn hir iawn yn pesgi — digon hen i alw 'chwi' arnynt cyn y byddent yn dew.

Yn mis Hydref 1911 mae'n sôn nad oedd ganddo basbort ac y buasai'n hoffi trefnu i gael un o gartref. Roedd yr heddlu ar ôl lladron a llofruddwyr ac yntau heb bapurau i ddangos pwy ydoedd. Yn mis Rhagfyr 1911 roedd yn aros efo Mr John H. Jones, Gerlan, Dolafon, Chubut ar ôl gwerthu ei ddefaid a'i geffylau.

Yn Chwefror 1912 roedd yn llongyfarch ei frawd, Jos, wedi priodi ag Annie — mi aethant i fyw i Utica, Unol Daleithiau. Yn mis Mawrth 1912 mae Ellis yn sôn am ddryswch ar y wlad oherwydd y lindys ers dwy flynedd. Mae y Cymry yn gwerthu eu ffermydd i'r Sbaenwyr ac yn mynd i Awstralia.

Mae'n debyg iddo ddod yn ôl i Gymru yn haf 1912 ac wedyn mynd i Awstralia. Llythyr o Melbourne yn mis Hydref ac o Mystic Park, Victoria yn mis Tachwedd, lle roedd yn gweithio fel contractwr yn troi tir hefo aradr pump gwŷs a phedair olwyn a chwe cheffyl. Roedd yn trio perswadio Jos ei frawd i ddod



Ellis Williams

ato i Awstralia. 'Pe baech yn gwybod y pethau ydwyf i wedi bod trwyddynt ac nid wyf wedi methu. Mae'n wir fy mod yn gwario wrth drampio ond enillaf hwy yn ôl mewn ychydig amser, os caf iechyd, nid ei roi i Ashton Smith (Y Faenol). Mi rwyf yn cael eu gweld a'u mwynhau fel hyn, ac efallai y trawaf ar lwc rhyw ddiwrnod fydd les i mi neu i'w rhoi i'm teulu, yn lle bod yn crafachu mewn hen gramen sâl er budd i eraill.'

Erbyn Mawrth 1913 gweler Ellis yn aros efo Mr Hughes, 132 Farm, Leeton Road, Yanko, N.S.W. yn chwilio am fferm. Mae wedi cyfarfod â John Edwards a'i deulu, Robert Jones — gŵr i ferch Joseph Owen. Yn mis Ebrill 1913 roedd yn symud i'w fferm ei hun. Fferm 509, Edon Parish, Leeton, New South Wales — tua 300 milltir i'r gogledd o Melbourne. Tir ar lês am byth, cynllun i gael pobol ar y tir oedd heb fawr o 'capital'.

Trosglwyddid y gweithredoedd mewn 5 mlynedd.

Mi adeiladodd sied 18'x12' i ddechrau cyn adeiladu tŷ. Ei ddisgrifiad ohono — lle i wneud bywoliaeth gysurus ar ôl cael cychwyn, yn talu yn ôl yn reit fuan, digon o farchned i bopeth. Maent wedi neilltuo 32 o ffermydd ar gyfer y Cymry ond does neb i gael tir heb £300 o gapital rhag iddynt ddisgyn ar gefn y llywodraeth a methu mynd ymlaen. Roedd wedi clywed fod llawer o Gymry yn mynd i Ganada, ond Awstralia yw'r lle i fynd, mi ellwch dyfu unrhyw beth ond cael dŵr a gwybod y ffordd i'w drin. Grapes, oranges, lemons a phob math o lysiau, tomatos, pumpkins a melons. Mae'r 'dairy' yn talu yn iawn ond fod dipyn o drafferth i odro a mynd a'r llaeth i'r ffatri. Mae'n bosib tyfu digon o fwyd ar 50 erw i

(parhad ar dud.19)



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



Sefydlwyd
1980

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Barddoniaeth ym Mharc Antur Waunfawr



Yn ystod mis Gorffennaf cynhaliwyd cyrsiau barddoniaeth i blant ysgolion cynradd ar safle Antur Waunfawr. Bu wyth ysgol yn ymweld ac yn eu plith Ysgolion Waunfawr, Bethel a Gwaun Gynfi Deiniolen. Y Prifeirdd Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd fu'n arwain y gweithgarwch, gyda chymorth parod Ifor ap Glyn, Meirion McIntyre Huws a Geraint Lovgreen. Noddwyd y cwrs gan yr 'Academi-hybu Llên'.

Gwenodd yr heulwen drwy gydol y pythefnos — tywydd perffaith i'r plant gerdded o gwmpas y parc i sylwi ar brydferthwch natur ac i farddoni yn yr awyr agored. Crewyd cerddi amrywiol yn llawn dychymyg a delweddu.

Y Dderwen Ifanc

Mae natur yn antur yn Waunfawr yma wrth droed y Mynydd Mawr; lluniau cerfiedig ar y llechi llyfn yn arwain at y pyllau tyfn lle mae'r creyr yn breuddwydio a'r llyffantod fel cerrig yn sgimio, a'r chwilod chwyrligwgan chwil yn rhwyfo a rhwyfo rownd y ril. Ar wyneb y dŵr mae gwas y neidr yn hofran yn slic a slei fel lleidr. Mae derwen ifanc gerllaw y coed, y dderwen leiaf a welwyd erioed. Heddiw, mae'i brig o fewn ein cyrraedd ni a'n breichiau yn ei chysgodi hi, ond cyn bo hir, ar ddydd o haf o dan ei dail bydd cysgod braf, brenhines y Parc i blant ein plant, a chreaduriaid y Waun a'r nant yn cadw cyfrinachau Waunfawr y pentre wrth droed y Mynydd Mawr.

Ysgol Waunfawr

Trefnwyd tri gweithgaredd i blant y pentref yn ystod gwyliau'r haf:-

- a) Taith o gwmpas y parc gyda Duncan Brown;
- b) Edrych ar fywyd y pwll gyda Dafydd Arfon;
- c) Gwaith crefftiau gyda Dewi Jones a Gill Brown.

* * *

Cynhelir Gŵyl y Gwyll eleni ar nos Wener, Medi 29 pan fydd cyfle i bobl a phlant yr ardal ymuno â gwahanol weithgareddau yn ymwneud â bywyd gwyllt y nos. Eleni, bydd cyfle i edrych ar ystumod, tylluanod, draenogod, gwybed, clywed storïau codi arswyd, ac edrych ar y sêr.

Rap yr Antur

Os 'tisio clywed
y gwynt yn y gwair
a theimlo'n gynnes
dan glogyn Mair.

Mae croeso eto
Yn y caban eco.

Os gen ti ofn dŵr
Cei waliau sychion,
Os gen ti ofn haul
mae yma gysgodion,
Os gen ti ofn nos
cei belydrau poethion.
Sgen ti ofn cael dy sathru?
Tyrd i ganol y galon.

Mae croeso eto
Yn y caban eco

Mae lle i enwau ar y llwybrau
Lle ar y llechi i dynnu lluniau;
Mae paill a phetala i'r pili pala
A chynefin clyd i'r fuwch goch gota;
Mae pwll i'r sbonciwr, dŵr i'r cychwr
A chroen fel gwydr er mwyn y sglefriwr.
Mae trawst i'r stlumod, gwair tal i'r malwod
A digon o dyllau i lwyth o lygod;
Cei siampên i'r parti o'r goeden gonffeti
A dawnsio a jeifio ym mhriodas y llwyni.

Os wyt ti 'di blino
A'r galon yn pwyso
Mae iti groeso
Yn y caban eco.

Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen

Y Frwydr Fawr

Erstalwm iawn, at ymyl y nant
Choeliwch chi byth, fe ddaeth eliffant,
Mynydd o eliffant a llithren o drwnc,
fe sychodd lyn Padarn i gyd mewn un llwnc.
Pob cam yn ddaeargryn, o'r naill ochr i'r llall,
roedd o'n nabod pob llwybr, roedd o'n hynod o gall.

Yn dangos y ffordd, cath ddu fel y glo,
a'i llygaid yn llarpio holl lygod y fro
a dychryn y gwartheg a'r defaid a'r moch,
yn poeri tân a phroceri poeth
gan fygu a dallu yr eliffant doeth;
ond llygaid y gath a welai drwy'r mwg
at guddfan garegog yr anghenfil drwg.
Roedd y llechi yn crensian fel llestri dan draed,
a'r llwyni a'r brigau'n diferu o waed,
ffrwydriad a fflach, a diflannodd y ddraig,
mewn ffwrnais o wres trodd yr eliffant yn graig
a'r cyfan sy'n weddill o'r Antur yn awr
yw olion traed anferth o gwmpas Waunfawr.

Ysgol Bethel

Yr Ŵydd a'r Elyrch ar Lyn Padarn



Mae dau alarch wedi mabwysiadu gŵydd ar Lyn Padarn yn ddiweddar. Mae'r ŵydd gyda'r elyrch ym mhob man, ac mae hyd yn oed yn hel yr hwyaid i ffordd os meiddiant fynd yn agos at yr elyrch. Ydi hyn yn beth diarth? Fedr rhywun gynnig esboniad inni?

DRAENOG



Rhan o hwyl gorymdaith carnifal yw'r cyfle i daf lu neu saethu dŵr at y bobl ar ochr y ffordd. Roedd un o siopwyr Llanberis yn benderfynol o dalu'n ôl eleni am y drochfa flynyddol a gawsai gan y carnifalwyr. Roedd ganddo bwced o ddŵr yn barod, ond yn anffodus ni DDARU Lwyddo i wlychu neb ond ei gwsmeriaid ei hun.

O SIAMBAR SELWYN

Pan chwythir y chwiban ola yn y Cup Ffeinal bob blwyddyn, mi fydda i'n teimlo rhyw wacter a rhyw aniddigrwydd. Dim pêl-droed am bron i dri mis. Doedd petha ddim mor ddrwg eleni gan fod Pencampwriaeth Ewrop, ac mi ges i fy modloni'n llwyr gan i Loegr wneud mor arbennig o dda, a dangos i dimau Ewrop gymaint sydd ganddyn nhw i'w ddysgu. Rhag i rywun gamddeall, faint sydd gan Lloegr i'w ddysgu rwy'n ceisio ei ddweud.

Dwi'n teimlo'r un digalondid wrth droi cefn ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn, neu wrth wrando ar y fendith yn cael ei chyhoeddi ar ddiwedd y Gymanfa.

Fedrwn i ddim meddwl am beidio mynd i'r brifwyl, a phetawn i'n cael fy ngorfodi i aros adre, mi fyddwn i yno drwy'r dydd drwy gyfrwng y radio a'r teledu. Na, fyddwn i byth yn mynd ar wyliau oddi allan i Gymru yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Ond teimlo'n ddigalon neu beidio, mae 'na gysur yn y ffaith oherwydd, ar ddiwedd y Steddod, mae'r tymer pêl-droed yn ail-gychwyn.

Ond, o ddewis, mae maes yr Eisteddfod yn llawer difyrach na maes y bêl-droed.

* * *

Ychydig wythnosau yn ôl soniais yn y golofn hon am gyd-ddigwyddiadau, gan gynnwys ambell i gyd-ddigwyddiad eisteddfodol. Cafwyd cyd-ddigwyddiad diddorol yn Eisteddfod Llanelli hefyd. Caf sôn am hynny yn nes ymlaen.

Gallwn ymfalchïo eleni oherwydd fod yna gysylltiad agos â Bro'r Eco ym muddugoliaeth y tri a gipiodd y prif wobrwon llenyddol.

Mi ges i'r fraint o gyrchu Dylan Iorwerth i'r llwyfan i gael ei goroni. Mi awgrymais iddo godi godre ei glogyn wrth ddringo'r grisiau i'r llwyfan. Mi fydda i'n awgrymu hynny bob

tro y bydda i'n cael fy newis i gyrchu, gan i mi faglu fy hun ar y prynhawn Mawrth poeth hwnnw yn Llanrwst rai blynyddoedd yn ôl. Dwi'n cofio beirniadu Dylan Iorwerth ar adrodd yn Eisteddfod Bontewnydd pan oedd o'n byw yn y Waunfawr, O!, sawl blwyddyn yn ôl bellach. Dwi ddim yn cofio a rois i'r wobrgynta iddo ai peidio, ond rwy'n cofio mai adrodd 'Cofio', Waldo Williams wnaeth o. Mi gofith Dylan am brifwyl Llanelli am byth, a diolch iddo am gerddi mor atgofus o deimladwy, er cof am gyfaill.

Beth am y cyd-ddigwyddiad yn Llanelli? Wel, mi fuo tad y prif lenor a thad bardd y Gadair yn Weinidogion ar Eglwys Cefn-y-Waun, Deiniolen. Dyma'r ail dro i Eirug Wyn ennill y Fedal. Dwi wedi sôn o'r blaen am ei driciau direidus hefo fi yn Lol ac fel y bu i minnau roddi'r bedwaredd wobrgynta iddo am adrodd yn Eisteddfod Cefn-y-Waun un tro (Rwy'n prysuro i ddweud mai dim ond pedwar oedd yn cystadlu). Ond yn Llanelli — y lle blaenaf iddo. Llongyfarchion cynnes Eirug. Mi fyddai dy dad, y diweddar Barchedig J. Price Wynne yn hynod o falch.

Dwi'n cofio tad Llion Jones yn dod yn Weinidog ifanc i Gefn-y-Waun. Byddai yn galw yn fy nghartref ym Methel, a chawsom sawl seiat ddifyr gyda'n gilydd. Dwi'n cofio i ni herio'n gilydd

unwaith i ennill y prif wobrwon yn Eisteddfod Gadeiriol a Choronog Capel Gorffwysfa Llanberis. Fo, y Parch Isaac Jones i gynnig am y Gadair a minnau i gynnig am y Goron. Do, fe lwyddon ni'n dau, a mawr fu'r llawenydd. Ac yn Neiniolen wrth gwrs y cafodd o wraig. Roedd yr awen yn sicr yng ngwythiennau Llion, ac efallai fod y ffaith iddo fyw ym Methel am gyfnod wedi sbarduno'r awen. Llongyfarchion cynnes

iawn, Llion. Mi fydda i'n ei gweld hi'n braf ar fardd yn ennill ei le fel prifardd ac yntau yn ifanc. Gall gamu'n hyderus o'i wobrgynta ei waith.

* * *

O gallaf, mi alla i ddychmygu dau o gyn-weinidogion Eglwys Cefn-y-Waun, Deiniolen yn ymfalchïo ac yn cyd-lawenhau mewn seiad lenyddol yn y dirgelwch mawr tu hwnt i'r llen, oherwydd llwyddiant yr 'hogia' ym Mhrifwyl y Genedl.

Cyngor Cymuned Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r cyngor nos Iau, 17 Awst i drafod dau gais cynllunio o fewn y pentref. Aeth y cyngorwyr ar ymweliad â'r ddau safle.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am newid defnydd o Goed Victoria, Llanberis o goedwig fasnachol i faes campio a charafanau symudol. Byddai rhan gyntaf y datblygiad yn gofyn am hawl i 63 o garafanau. Byddai'r ail ran yn gofyn am ganiatad am dŷ rheolwr, bloc gwasanaethau a 45 carafan ychwanegol.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais oherwydd maint y datblygiad; y ffaith y gallai amharu'n weledol ar y fynedfa i mewn i'r pentref; yr effaith posibl ar Westy Victoria a'r eiddo yn

ardaloedd Pentre Castell, Rhes Victoria, Rhes Efrog a Rhes Faenol; pryderon amlwg ynglŷn â diogelwch y ffordd; y ffaith fod datblygiad o'r fath yn anaddas o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol; a'r pryderon ynglŷn â'r gorlwytho posibl ar sustem garthffosiaeth y pentref.

Bu'r Cyngor hefyd yn ystyried cais i adeiladu pump o dai ar dir tu cefn i Erw Fair a Mount Pleasant. Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i ddatblygiad o'r fath ar y safle, ond teimlid y byddai pedwar tŷ yn gweddu i faint y tir.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug

Caernarfon 673513

Ffôn Symudol: 07774 496616




Beic 'di malu ac isio'i drwsio?
Mae Yncl Wil yn siŵr o blesio.
Am feiciau glân ail-law a phartiau,
Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

Cysylltwch â W. Jones
Waunfawr (01286) 650723

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
BeliBistro
Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED. Pob dymuniad da i'r rhai sy'n cychwyn yn Ysgol Brynrefail a chroeso mawr i'r newydd ddyfodiaid i Adran Babanod yr Ysgol.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau fore Sul, Medi 10 am 10 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau newydd, boed blant neu oedolion. Gobeithir cynnal 'Darllen Tawel Nodedig', sef darllen unrhyw lyfr crefyddol am ystod o amser er budd addysg y ferch fach fabwysiedig, Katalan Singano, o Kenya. Mae angen codi £120 ar gyfer ei haddysg. Byddwn yn ymuno ag Ysgol Sul Undebol Ebeneser, Deiniolen. Diolchir am eich cefnogaeth.

TRIP YR YSGOLION SUL. Dymunir diolch i Elizabeth Jones ac Ann Paterson am drefnu trip gwerth chweil i Blackpool ar Sadwrn, Gorffennaf 8. Bu'n dywydd braf ac roedd y plant a'r oedolion wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

GWELLHAD. Anfonir cofion annwyl at unrhyw un sydd wedi bod yn sal yn ddiweddar. Hwyrach y cawn Ha' Bach Mihangel i godi'r galon. Gobeithio wir!

DYWEDDIAD. Pleser yw llongyfarch Bethan, merch Mr a Mrs E.W. Roberts, Llanfairpwll a Dyfed, mab Liz ac Eric, 17 Bryntirion ar eu dyweddïad. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

LLONGYFARCHIADAU. Braf yw cael llongyfarch cerddorion ifanc y pentref sydd wedi llwyddo'n anrhydeddus yn eu harholiadau piano a thelyn yn ddiweddar. Lois Eifion a Lois Angharad wedi cael clod mawr hefo'r delyn, Mari Deiniol, Deian Tudur, Lois Eifion a Lois Angharad wedi cael marciau uchel gyda'r piano. Da iawn chi a pharhewch i ymarfer yn galed.

PRIODAS RUDDER. Dymuniadau da i Eurwyn a Shirley Jones, Camelot ar ddatlu eu Priodas Ruddem ar Awst 1. Pob bendith oddi wrth y teulu a phawb yn y pentref.

SIOEAU. Llongyferchir pawb sydd wedi cael llwyddiannau yn yr amrywiol sioeau. Gŵyr pawb am adar, gwartheg duon, ceffylau a defaid enwog Penisarwaun.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir Noson Goffi, nos Iau, Medi 7 am

6.30 yh yn y Neuadd Gymuned. Dewch i fwynhau sgwrs uwch paned am ddim, crwydro'r stondinau, gweld lluniau Eisteddfodau dros yr ugain mlynedd aeth heibio a derbyn eich copi o Raglen a Thestunau Eisteddfod Penisarwaun 2000, a gynhelir ym mis Hydref.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANELLI. Do, bu'n Eisteddfod lwyddiannus, anrhydeddus a chroesawgar. Braf canfod fod gan y prif enillwyr llenyddol gysylltiad, mewn rhyw fodd neu'i gilydd â'r fro hon. Dylan Iorwerth, Waunfawr, Eirug Wyn, Deiniolen ac Ysgol Brynrefail a gallwn ninnau yn y pentref hwn ymfalchïo mai brodor o Weirglodd Goch yw Nansi (nee Ellis) mam Llion Jones, enillydd y Gadair.

ARHOLIADAU. Llongyferchir pawb ohonoch ar eich canlyniadau arbennig yn yr amrywiol arholiadau. Pob dymuniad da i'r rhai ohonoch fydd yn dilyn cwrs Lefel A newydd neu'n cychwyn ar fywyd newydd yn y coleg. Pob bendith a llwyddiant eto i'r dyfodol.

URDD, ADRAN BENTREF. Bydd yr Adran yn ail gychwyn wedi gwyliu'r Hanner Tymor ym mis Hydref.

PWYLLGOR NEUADD. Cynhelir Noson Daith Gerdded, nos Wener, Medi 8 i gychwyn o'r Neuadd Gymuned am 6.00yh. Leslie Larsen fydd yn gofalu am y daith ar hyd llwybrau'r pentref. Bydd paned yn barod erbyn dychwelyd — paned dda yng ngofal Myrddin a Dafydd. Felly chwi rieni a phlant a ffrindiau dowch i gadw'r llwybrau ar agor. Tynnir y Raffl Fawr ar y noson.

Cynhelir 'Ocsiwn Addewidion' nos Wener, Tachwedd 17 yn y Neuadd Gymuned. Os dymuna unrhyw un gyfrannu mewn unrhyw fodd cysyllter ag aelodau'r Pwyllgor neu'r Ysgrifennydd (872407).

CYFARFOD BLYNYDDOL. Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol nos Fawrth, Medi 5 am 6.30 yh yn y Neuadd Gymuned.

CLWB CANT. Enillwyr Clwb Cant Gorffennaf oedd: 1. Bessie Williams, Llys Myfyr; 2. Elen

Lewis, Penpwllcoch; 3. Selwyn Griffith, 6 Bryn Eglwys.

Enillwyr mis Awst oedd:

1. Iolo Hughes, Meillionydd; 2. Carol Porter, 4 Bron y Waun; 3. Bronwen Jones, Cae Corniog Bach.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Clifford ac Emlyn a'r teulu oll ar farwolaeth Gwenifer Jones, 7 Bryntirion gynt. Bu farw'n dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Bu dathlu mawr ym Mhenpwllcoch yn ddiweddar — dathlu pen-blwydd arbennig y penteulu. Gobeithio dy fod wedi cael diwrnod i'w gofio Haydn a Sbardyn i gerdded y ddegawd nesaf yr un mor sionc!

EGLWYS SANTES HELEN. Gwasanaeth Conffermasiwn Chymun Bendigaidd. Cynhelir gwasanaeth Conffermasiwn Luke, Mathew ac Iwan, nos Sul, Hydref 8 am 6.00 gyda'r Gwir Barchedig Saunders Esgob Bangor a'r Parch Philip Hughes, Deon Gwlad. Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn yn Neuadd yr Eglwys.

CARNIFAL AWST 28 - MEDI 3. Nos Lun, Awst 28 am 7.30 - Bingo yn Neuadd yr Eglwys; Awst 29 - Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30; Awst 30, 6-7.30 - Disgo i'r Plant yn Neuadd yr Eglwys; 8.00 - Dawnsio Llinell i bob oedran.

Awst 31, Gŵyl Flodau gydag Arddangosfa lluniau o'r Pentref. Bydd arddangosfa o greffttau wedi eu gwneud gan rai o'r pentrefwyr yn Neuadd yr Eglwys, gyda lluniaeth ysgafn ar gael, o 10.00 hyd 7.00yh.

Gweinyddir y Cymun Bendigaidd am 1.30 y bore ac ymlaen yn ddyddiol trwy'r wythnos. Cynhelir Mabolgampau ar gaeau'r Ysgol Gymuned am 6.00.

Medi 1, Helfa Drysor i gychwyn rhwng 6.30 a 7.00 o Neuadd yr Eglwys ac yn diweddu mewn gwesty gyda phryd o fwyd.

Medi 2, Carnifal a Sêl Cist Car. Bydd amryw o weithgareddau a stondinau. Bydd yr orymdaith yn cychwyn o'r Cartref Nyrsio am 2.00 gyda Seindorf Arian Deiniolen. Bydd Seindorf Arian leucentid Llanberis yn perfformio ar y cae.

Medi 3, Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 7.00 gydag eitemau gan Gôr Lleisiau'r Gweunydd, Rhiwlas. Arweinydd y Gân fydd Einir Wyn Williams. Croeso cynnes i bawb.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Graham a Sian Land, Marvsta ar enedigaeth mab bach yn ddiweddar — Sion Eifion Land. LLONGYFARCHIADAU hefyd i Evan a Helen Parry, Morwel ar ddod yn daid ac yn nain unwaith eto — ganwyd hogyn bach i Einir ac Euros Davies.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad at Bryn, Sharon a'r teulu, Gwynfryn yn eu profedigaeth.

DRAENOG

Mae'r oes wedi newid, ac rydym yn byw mewn cyfnod ble mae dynion a merched yn gyfartal mewn nifer iawn o ffyrdd; gwaith tŷ, magu plant, coginio, gweithio a, fel y profodd gŵr modern iawn o Frynrefail, defnyddio colur ei gilydd. DA FYDDAI meddwl y bydd holl ddynion Nant Peris yn dilyn ei ffasiwn newydd o beintio ewinedd ei draed yn binc a glas, ar ôl iddo eu dangos mor osgeiddig yn y Vaynol Arms un nos Sadwrn. Fe fyddai Vivienne (NAT) WESTWOOD wrth ei bodd!

NEWID CYFEIRIAD. Wedi sawl blwyddyn fel athro yn Ysgol Dyffryn Nantlle y mae'r Parch Tegid Roberts am newid cyfeiriad. Penodwyd ef yn Swyddog Plant a Swyddog Ysgolion Esgobaeth Bangor. Bydd hefyd yn gwasanaethu yn y Gaderilan fel Is-Gaplan o Fedi'r cyntaf. Pob dymuniad da.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £42.99 ym Mhenisarwaun gan Elisabeth Jones ac Ann Patterson. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

PLYGU'R ECO. Erfynnir am help gyda'r plygu nos Iau, Medi 28 o 5.30 ymlaen yn Neuadd Santes Helen. Diolch o galon.

OSMOND SHAW
DEINIOLLEN

GWERTHU
- TRWSIO


★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Gwynedd
Hotel
& Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.

Bwydlen Bar a Restaurant.

Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491


Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

ANGEN DOSBARTHWR. Mae angen rhywun i helpu i ddosbarthu'r Eco yn Dôl Eilian a Fflatiau Maes Padarn. Os gallwch sbario rhyw awr bob mis i sicrhau bod y papur yn cyrraedd ein darllenwyr byddem yn ddiolchgar iawn am eich cymorth. Cysylltwch â Gwilym Evans, Tŷ Crwn (872034).

PRIODAS. Priodwyd Nia Wyn, merch Eifion a Gwyneth Roberts, Sŵn-y-gwynt, Ffordd Padarn ag Eric Gachon, mab Monsieur et Madame Francis Gachon o Marseille, Ffrainc ar Orffennaf 22 yn Eglwys Notre Dame de l'Amitie. Cafwyd gwasanaeth mewn Ffrangeg a Chymraeg. Dymuna Eric a Nia ddiolch i'r Parchedig John Pritchard; i Gareth Jones am y tapiau ac i'r teulu, cymdogion a'u ffrindiau am y cardiau, anrhegion ac ewyllys da.

DOETHURIAETH.

Llongyfarchiadau mawr i Sa'ad Mansoor, 16 Ffordd Capel Coch ar ennill Gradd Doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor yr haf yma. Dyfarnwyd gradd PhD iddo am waith ym maes Peirianwaith a Rheolaeth Ynni. Mae'r teulu i gyd yn falch o weld ei waith caled dros y blynyddoedd diwethaf yn dwyn ffrwyth. Mae Sa'ad yn gweithio i gwmni Eddison Mission gan ymchwilio perfformiad yr Orsaf Ynni yn Ninorwig. Dymuniadau gorau i ti, Sa'ad, oddi wrth Ken a Mair a'r teulu i gyd.



CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Nos Wener, Awst 18, yng Ngwesty Dolbadarn, cynhaliwyd Noson Bingo at y Côr a gwnaed elw o £310. Dymuna Pwyllgor Merched y Côr ddiolch i siopwyr yr ardal ac i bawb a gyfrannodd at y noson lwyddiannus yma. Diolch yn fawr iawn.

GRADDIO. Llongyfarchiadau i Gwawr Smith, merch Bert ac Ann Parry, Sycharth ar ennill gradd mewn Astudiaethau Busnes yn ddiweddar. Mae Gwawr yn byw yn Ashton-u-Lyne, a chanddi bedwar o blant.



SYMUD. Dymuniadau gorau i Elisabeth, Fron Goch sy'n symud i fyw i Sir Fôn. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd wrth i chi ddychwelyd at eich gwreiddiau ym Môn.

PLAS PENGWAITH. Cafwyd noson ddiffr iawn ar Fehefin 28 gyda rhai o staff a ffrindiau'r Cartref yn mynd o gwmpas yr ardal ar Helfa Drysor. Trefnwyd yr Helfa gan Mrs L Williams a gwnaed elw o £84.

Yr oedd Mrs E Higgins yn dathlu ei phen-blwydd ym mis Awst a dymunwn ben-blwydd hapus iddi. Pen-blwydd hapus hefyd i Mr R.H. Jones a fydd yn dathlu ym mis Medi.

Mae Mr Glyn Jones wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac mae pawb yn y Cartref wedi ei golli ac yn dymuno gwellhad buan iddo.

Diolch i Mr a Mrs F. Hughes, Berthlyn, Bethel am y blodau hyfryd a dderbyniodd y Cartref ar achlysur priodas Mark a Siân.



Cyflwyno mygiau'r Mileiniwm i blant Ysgol Dolbadarn ar Ysgol Feithrin gan Bwyllgor Carnifal

Ar Orffennaf 13 cawsom ein diddori gan Heather Jones. Mae Heather yn brysur yn mynd o gwmpas cartrefi'r Cyngor yn diddori'r preswylwyr. Diolch yn fawr iddi am ei hamser. Yr oedd pawb wedi mwynhau'r canu. Diolch hefyd i Gôr Meibion Dwyfor a ddaeth yma atom i'n diddori yn ddiweddar.

Mae Mrs Barlow o Lanrug wedi dod atom am gyfnod. Estynnwn groeso cynnes iddi.

Bu stondin y Cartref ar gae'r Carnifal eto eleni a gwnaed elw o £340. Hoffai swyddogion y Cartref ddatgan eu diolch i bawb a roddodd eu hamser a'u gwaith ar y dydd, ac i bawb a ddaeth i'n cefnogi. Enillwyr raffl y Cartref ar ddydd y Carnifal oedd: Hamper - Mrs S. Taylor, Caernarfon; Doli - Mrs A. Williams, Bethel; Gwin - Mrs Pugh, Llanrug; Gwin - (01248)

670476; Bocs siocled - Mrs V. Hughes, Bangor; Bocs taffi - Moi.

Llongyfarchiadau i Mrs Manon Roberts, Mrs Carys Hughes a Carys Jones ar eu penodiad i'w swyddi newydd yn y Cartref.

Mae'r ffenestri dwbl i gyd wedi eu gosod erbyn hyn a'r gwres canolog. Y gwaith addurno fydd nesaf.

Hoffai swyddogion y Cartref ddiolch i swyddogion Eddison Power yn Dinorwig am eu rhodd caredig o docynnau i Wyl y Faenol, Bryn Terfel ar Awst 25. Cafwyd y cludiant yno hefyd.

Os oes gan rywrai gopiâu nad ydynt eu hangen o daflenni cerddoriaeth ar gyfer piano byddem yn falch iawn o'u cael. Gallent fod o ddefnydd i ni yma ym Mhengwaith, a byddem yn ddiolchgar amdanynt.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161



PEN-BLWYDD **PRIODAS.** Dymuniadau gorau i Olive a Noel Owen, 7 Glanrafon oedd yn dathlu pen-blwydd eu priodas ar Awst 27. Maent yn briod ers 40 mlynedd erbyn hyn. Llongyfarchiadau oddi wrth Linda, Darren, Andrew, Nathan, Llinos, Louise, Chris, Jackie, Donna a'r plant, Kevin, Emma, Linda, John, Caren, Dave, Norah, Awela, George a'r teulu, Ernie, Sylvia, Wendy, Ken a'r teulu, Sue, Rone, Janet a Debrah, Awstralia a'u ffrindiau.

NOFIO. Llongyfarchiadau i Jade Roberts am ennill Tystysgrif Lefel Un a Dau y 'Personal Survivor Awards' ym mhwl nofio Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Judith ar ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed ar Awst 28, oddi wrth Bwyllgor Eisteddfod Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Eifion a Gwyneth Roberts, Sŵn-y-gwynt, Ffordd Padarn ddiolch o galon i'w chwiorydd a'u gwŷr, y teulu oll, staff Becws Eryri, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd pan oedd yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl cael damwain car ar ffordd yr A55.

DIOLCH. Dymuna Wilbert, Haydn a Helen ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Nellie. Hefyd diolch o galon i'r staff yn Bron Eryri am y gofal a roddwyd i Nellie dros y misoedd diwethaf. Diolch hefyd i'r Parchg

Philip Hughes am y gwasanaeth; i Gareth am ei wasanaeth wrth yr organ ac i Gwynfor a Myrddin am y trefniadau.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Humphreys, Nant, Coed-y-ddôl, ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu consern, ac am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra'n cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch o galon. **DIOLCH.** Dymuna Mrs Catherine Ll. Williams ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed ar Awst 2.

DIOLCH. Dymuna Mrs Katie Griffiths, 23 Maes Padarn ddatgan ei diolch am y cardiau, rhoddion a galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

BREHNINES Y CARNIFAL. Dymuna Sophie Natasha Jarvis ddiolch i bawb am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd fel Brenhines y Mileniwm.

DIOLCH. Dymuna Iola Sellars ddiolch i'w theulu, ffrindiau a phawb am bob caredigrwydd tuag ati ar ôl ei damwain yn ddiweddar. **SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON.** Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £369.52 yn Llanberis gan Bet Hughes, Sioned Roberts, Dilys Roberts, N. Morris, M. Jones, C. Pritchard, Marian Evans a J. Roberts. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

Carnifal Llanberis



antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn
Stâd Cibyn, Caernarfon

Cyfleon Gwirfoddoli

mae'r Cynllun arloesol yma yn edrych am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gwaith trin dodrefn ac i gefnogi a chynorthwyo gweithwyr gydag anabledau dysgu yn eu gwaith

Cyfle arbennig i seiri coed a thrydanwyr wedi ymddeol, neu bobl all droi ei llaw at drin dodrefn.

am fwy o fanylion holwch Glyn Mowll,
Rheolwr Cynllun Dodrefn 01286 674 155

www.anturwaunfawr.org



R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg yn cyflwyno rhodd o £4,000 i Sefydliad Coffa Llanrug

Cyflwynodd Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg rodd o £4,000 tuag at gost adnewyddu Sefydliad Coffa Llanrug. Mae'n dilyn cyfraniad blaenorol o £2,000 ynghyd â mwy na 100 o gadeiriau, stolion a meinciau a ddaeth ar gael wedi ail ddatblygiad y parc ei hun.

Eglura James McAllister, Rheolwr y Parc, 'Fel cwmni rydym yn ymfalchïo yn ein cysylltiadau â'r gymuned. Ni yw prif gyflogwyr y pentref ac rydym yn prynu cyn gymaint â phosibl o'n anghenion yn lleol. Yn y gorffennol rydym wedi cefnogi achosion lleol fel clwb pêl-droed Llanrug, siop gymunedol Cwm-y-glo a chaffi Menter Fachwen.

'Ffordd ydyw o ddweud diolch yn fawr am y gefnogaeth wych a gawsom ers inni brynu'r parc yn Hydref 1998 wrth inni anelu tuag at ein nod o fod y parc cartrefi gwyliau gorau ym Mhrydain. Yn y cyswllt hwnnw, rydym ar hyn o bryd yn disgwyl cadarnhad ein bod wedi ennill gwobr Calor Gas i'r Parc Gwyliau Lle Bu'r Gwelliant Mwyaf yng Nghymru.'

Roedd Cadeirydd y Sefydliad Coffa, Meurig Parry, wrth ei fodd gyda rhodd Brynteg. 'Er ein holl ymdrechion codi arian, roeddem yn dal £8,000 yn brin o'n targed, a'r Sefydliad Coffa ar fin agor ar ei newydd wedd yn yr Hydref eleni. Yn naturiol, roeddem yn bryderus wrth fynd unwaith eto at James McAllister yn wyneb ei gyfraniadau hael blaenorol. Ond cytunodd ar unwaith i gwrdd â hanner ein diffyg.'

'Mae cyfanswm cost prosiect Sefydliad Coffa Llanrug bron i £200,000. Derbyniwyd grantiau oddi wrth Gomisiwn y Mileniwm, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Gwynedd tuag at ran helaethaf y swm. Ond roedd yn rhaid i'r pentref godi £30,000 eu hunain, swm aruthrol i le gweddol fach. Bu clybiau a chymdeithasau a



(Chwith i'r dde): R.L. Williams, yr adeiladydd a Selwyn Jones, y pensaer (y ddau o Lanrug); Meurig Parry, Cadeirydd y Sefydliad Coffa; Goronwy Hughes, y Trysorydd a James McAllister, Parc Brynteg.

fydd yn defnyddio'r Sefydliad o help garw yn cynnal digwyddiadau fel cerdded nodedig a ras bramiau, gan godi mwy na £20,000. Hefo rhodd ddiweddaraf James, rydym yn agosáu at ein nod. Eisoes rydym yn gwahodd ysgrifenyddion clybiau ac unigolion i ddod i weld drostynt eu hunain y cyfleusterau rhagorol sydd ar gael i'w llogi. Dechreuwyd cymryd archebion — i wybod mwy, cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor.'

Disgwylir i'r Sefydliad Coffa ailagor yn yr Hydref. Dan lygad barcud y pensaer Selwyn Jones o Pensel, mae'r adeiladwyr, R.L. Williams eisoes wedi codi estyniad newydd sbon ac ailwampio'r hen adeilad yn llwyr i'w foderneiddio hyd at safonau eco-gyfeillgar yr 21fed Ganrif. Maent bellach wedi cyrraedd y gwaith gorffen.

Dywed Meurig Parry, 'Bydd y Sefydliad Coffa ar agor yn y dydd a chyda'r nos. Mae'r cyfleusterau yn cynnwys neuadd snwcer newydd gyda dau fwrdd, ystafell gyfarfod i gymdeithasau, ystafell hyfforddiant cyfrifiadur a neuadd efo lle i tua 200 o bobl. Mae cyfleusterau cegin yn union gerllaw ac felly mae'n stafell ddelfrydol ar gyfer partïon a dathliadau preifat yn ogystal ag adloniant cyhoeddus.'

Ychwanegodd, 'Bydd y Sefydliad Coffa hefyd yn

ganolfan addysg i'r pentref. Rydym mewn trafodaethau efo Coleg Menai ac eraill gyda golwg ar gynnig pob math o ddosbarthiadau dydd a nos. Os gwnaiff pobl roi gwybod inni beth yw eu dymuniadau, fe holwn a yw hynny'n bosibl.' Manylion pellach: James McAllister, Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg (01286 873100); Goronwy Hughes, Trysorydd Sefydliad Coffa Llanrug (01286 674839); Meurig Parry, Cadeirydd Sefydliad Coffa Llanrug (01286 674497); John Roberts, PRJR, (01286 675605 / 07770 781188.

Colur ar Gael

Derbyniodd Mantell Gwynedd 32 sachaid o golur gan y siop 'Boots' (trwy garedigrwydd Proctor & Gamble) i'w ddosbarthu i fudiadau gwirfoddol yng Ngogledd Cymru. Mae Mantell Gwynedd, gyda bwrdd rheoli sy'n gynrychiolwyr o fudiadau sy'n gweithredu yng Ngwynedd yn awyddus i gefnogi grwpiau gwirfoddol lleol. Gall y cyflenwad yma o ddeunyddiau coluro chwaethus gael eu defnyddio gan grwpiau gwirfoddol o bob math — Hosbis, Cyfeillion Ysbytai, Cymorth i Ferched neu ar gyfer gwobrau raffl neu dombola ffeiriau haf neu Nadolig gan fudiadau megis Sefydliad y Merched, Mudiad Ysgolion Meithrin, neu unrhyw glwb sy'n credu fod ganddynt ddefnydd iddynt. Beth sy' raid ei wneud?

Cysylltwch â swyddfa Mantell Gwynedd yn Stryd Fawr, Caernarfon (01286 672626) neu Dolgellau (01341 422575) i drefnu i'w casglu. Rhaid pwysleisio bod yn rhaid defnyddio'r colur i ddibenion elusennol ac na ellir ei ailwerthu.

Daw eu cylchlythyr 'Mantell' allan yn chwarterol i holl fudiadau Gwynedd. Os nad ydyw eich mudiad chi'n derbyn copi cysylltwch â'r swyddfa.

Rhagor o luniau Ras y Wyddfa



Andrew Jones a Gethin Tudur Evans. Cyntaf ac ail yn y Ras Iau (ar ochr dde y llun)



Gwyn Williams (canol) enillydd Ras yr Ieuencid.

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL



Jonathan Gordon (bl.10) a Sarah Hughes (bl.10), Capteiniaid Elidir, y tŷ buddugol.

Ymweliad â Chwael Dinoriwg

Dydd Llun, Mehefin 19, 2000 ymwelodd 120 o ddisgyblion blwyddyn 7 a saith o athrawon Ysgol Brynrefail â Chwael Dinoriwg yn Llanberis. Aethom yno oherwydd roeddem wedi bod yn gwneud gwaith ar y chwael a sut roedd pobl yn byw yn ystod y streic a ddigwyddodd yn ystod yr adeg yma. Roeddem hefyd wedi darllen y llyfr 'Bwli a Bradwr' a oedd yn sôn am fywyd yn ystod streic y chwael.

Cyrhaeddodd y chwael am tua deg o'r gloch yn y bore a rhannwyd blwyddyn saith i mewn i ddau grŵp. Fe aeth fy ngrŵp i i fyny i gerdded gyda Mr Dylan Jones, Mrs Nona Breese a Mrs Catrin Evans. Aethom i fyny'r llwybr a stopio yn y barics ble roedd y chwaelwyr yn arfer byw. Gwelais ysgrifen ar y waliau ble roedd y chwaelwyr wedi cerfio eu henwau a'r dyddiad. Roedd un yn dweud 1909 arno.

Ar ôl cyrraedd y top roedd yn rhaid i ni ddychwelyd i lawr llwybr serth y chwael. Llithrodd Megan i lawr y grisiau llechen ond roedd hi'n iawn. Cerddom heibio'r inclên, y peiriant oedd yn arfer cludo'r llechi i fyny ac i lawr ochr y chwael. Erbyn nawr roedd wedi rhydu ac yn aros yn llonydd.

Wrth nesau at y gwaelod gwelsom yr hen ysbyty, oedd nawr wedi ei wneud yn dŷ twristiaid ble roedd pawb yn mynd i edrych ar yr hen wrthrychau fel gwisgoedd nyrs ac ati. Wrth ochr yr ysbyty roedd adeilad o'r enw tŷ'r meirw, ble roedd y bobl oedd wedi marw yn mynd cyn cael eu claddu. Tu mewn roedd dau slab o lechen yn sefyll ar blatfom gyda thri neu bedwar twll ynddo. Roedd y tyllau yma yn y llechen i'r gwaed oedd ar y cyrff ddraenio trwyddynt.

Ar ôl cerdded aethom am ginio. Cawsom bicnic ar lawnt yng ngwaelod y chwael, wrth ochr y dŵr. Ymunodd gweddill blwyddyn saith â ni yno. Pan

oedd pawb wedi gorffen eu bwyd, newidiodd y ddau grŵp drosodd. Aeth y grŵp arall i gerdded tra aethom ni i lawr i'r gweithdai.

Yn gyntaf aethom i weld fideo o'r enw 'Dwyn y mynydd', ble roedd pawb yn gwisgo sbectol 3-D ac yn gweld y lluniau yn neidio allan o'r sgrin. Roedd y fideo'n sôn am y ffordd o gael y llechi o'r mynydd, yr offer roedd y chwaelwyr yn eu defnyddio, teulu yr Arglwyddi oedd piau'r chwael, a sut mae popeth wedi newid erbyn heddiw.

Pan orffenodd y fideo aeth pawb i un o'r gweithdai i wyllo chwaelwr yn trin llechen. Yn gyntaf roedd yn eistedd ar y blocyn tin ac yn hollti'r llechen gyda chŷn a morthwyl. Wedyn roedd yn defnyddio pric mesur i fesur y llechen i'r maint cywir cyn ei thorri ar y drafael gyda chylllell naddu.

Hefyd gwelsom y gof yn gwneud procer tân gyda phen draig arno. Roedd yn toddi'r metel yn y tân a oedd yn cael ei alw'n bentan, ac yna'n ei daro'n galed ar yr einion.

Yn olaf un aeth pawb i weld y tai newydd oedd wedi cael eu hadeiladu. Roedd pedwar tŷ gwahanol: Tŷ addysg i ysgolion fynd i ddysgu, tŷ o 1860, 1901 ac 1969. Roedd pob un wedi cael eu symud fesul carreg o wahanol lefydd, ac wedi eu hail-adeiladu yn y chwael. Roedd y tu mewn a thu allan yn union yr un peth a'r tai gwreiddiol pan gawsant eu hadeiladu gyntaf. Wrth symud o un tŷ i'r llall, roedd y ffordd o fyw yn newid yn ddramatig. Sut roeddynt yn cael eu golau, gwres, dŵr, sut roeddynt yn ymolchi, golchi dillad a'r dodrefn oedd yn y tŷ'n newid. Yn y tŷ cyntaf doedd dim tap yn y tŷ, roedd pawb yn mynd allan i gael dŵr i olchi dillad. Erbyn cyrraedd y tŷ olaf, sef 1969, roedd peiriant golchi yn y tŷ!

Ar ôl ymweld â'r tai i gyd, roedd yn amser mynd adref.

Ein Sioe Gerdd

Roedd neuadd Ysgol Brynrefail dan ei sang am yr ail berfformiad o'r sioe gerdd 'Babi Bach y Wern' a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 11 Gorffennaf.

Comisiynwyd Eirug Wyn, cyn ddisgybl o'r ysgol, i greu sioe gerdd i ddathlu canmlwyddiant sefydlu Ysgol Brynrefail eleni. Llwyddodd i greu Sioe Gerdd wreiddiol a bywiog oedd yn apelio'n fawr at y disgyblion oedd yn cymryd rhan ac a oedd yn taro tant â'r gynulleidfa niferus hefyd, yn ôl eu hymateb brwdfrydig i'r perfformiad.

Bu staff a disgyblion wrthi'n ddiwyd yn ymarfer a pharatoi a chafwyd cryn hwyl wrth ymarfer a pherfformio.

Amrywia'r cymeriadau o 'Big D' neu'r diafol i Duw a'i gosgordd (ie, dynes yw Duw!), draenoges a gweinidog! Cafwyd sawl perfformiad cofiadwy gan y cast. Pwy all anghofio gweld rhai hogia cyhyrog y 5ed a'r 6ed mewn clytia! Genod deniadol yn ceisio temtio'r gweinidog ac, wrth gwrs, 'The Snowdon Lads' — wna i ddim ymhelaethu,

digon yw dweud fod y dorf yn glanna' wrth weld eu giamocs!

Er bod rhai yn fwy amlwg na'r lleill ar y llwyfan, rhaid cofio na fyddai'r sioe wedi bod yn gymaint o lwyddiant heb gyfraniad pob un o'r cast, y corws, y band, y technegwyr, y colurwyr, meistresi'r gwisgoedd, hyfforddwyr, un ac oll yn cydweithio i greu cyfanwaith bendigedig. Bydd asbri a mwynhad y noson yn sicr o aros yn hir yng nghof y gynulleidfa a'r cast fel ei gilydd.

Cafwyd gwledd yng ngwir ystyr y gair, ond na phryderwch y rhai ohonoch na lwyddodd i sicrhau eich tocyn y tro hwn, bydd trydydd perfformiad fel rhan o weithgareddau wythnos dathlu'r canmlwyddiant.

Gallwch ymuno yn y sbri nos Fercher, 27 Medi — peidiwch â cholli'r cyfle!



Enillwyr Blwyddyn 7 — 10.

Ymweliad Milwr, Bosnia

Ar Dachwedd 29, 1999 anfonodd dosbarth 7N Ysgol Brynrefail lythyrau at gyn-ddisgybl yr ysgol sydd nawr yn y fyddin yn Kosovo. Roedd Dylan yn falch iawn o gael y llythyrau. 'Dim yn aml y clywch chi eiriau Cymraeg yn Kosovo,' dywedodd.

Daeth Dylan i ymweld â dosbath 7N ddde, Gorffennaf 11, a siarad gyda'r dosbarth. Siaradodd Dylan am ei brofiadau erchyll yng Nghosovo. Roedd gan y plant lawer o gwestiynau i'w gofyn wrtho fel 'A ydych wedi saethu rhywun o'r blaen?' ac 'Ydych chi wedi cael eich saethu o'r blaen?' Atebion Dylan i'r cwestiynau hyn oedd 'Na, dydw i heb saethu neb, nid dyna oedden ni yno i'w wneud. Rydym ni fwy fel heddlu a dweud y gwir, yn atal yr

Albanians rhag ymladd gyda'r Serbs. Fy ngwaith i yno oedd prynu popeth roedd y fyddin angen, bwyd a diod, arfau a chludiant. Unwaith roedd rhaid i mi brynu 22 Landrover ar unwaith!

Ateb Dylan i'r cwestiwn 'Beth oedd y peth mwyaf trist a welsoch?' oedd 'Y peth mwyaf trist a welais oedd gweld bod y plant ddim hyd yn oed yn gallu mynd i'r ysgol yn ddiogel, roedd yn rhaid iddynt gael "military escort" i'r ysgol.'

O beth ddywedodd Dylan, roedd Kosovo yn lle erchyll a difrifol. Ym mhob man roedd tai wedi eu chwythu i fyny, roedd pobl yn cael eu claddu gyda'i gilydd mewn beddau enfawr. Mewn geiriau eraill, nid oedd Kosovo yn lle neis.

Megan Jones 7N

NANT PERIS

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

LLONGYFARCHIADAU i Glenys a'r teulu, 2 Nant Ffynnon gynt, ar enedigaeth efeilliaid ac i Ann Jones ar fod yn nain unwaith eto.

PEN-BLWYDD HAPUS hwyr i David Welsby, 1 Glanrafon Terrace a oedd yn 18 oed yn ddiweddar. Estynnwn ein llongyfarchiadau mwyaf ato hefyd am lwyddo yn ei arholiadau Lefel A - Pob lwc yn Aberystwyth!

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Sandra Fleming, Dolwen gynt ar ei dyweddiad diweddar gyda Jeff Jones, Caerdydd. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.

PEN-BLWYDD HAPUS i Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa a oedd yn 80 ar Orffennaf 15. Gobeithio y cawsoch ddiwrnod i'w gofio.

CLWB FFRINDIAU'R YSGOL. Dyma enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Awst: £35: Tomos Owen, 11 Rhes Faenol; £25: Gareth Philips, 14 Tan y Mur, Caernarfon; £15: Olwen Morris, 56 Maes Padarn; £10: Gwerfyl Jones, 9 Maes Padarn; £5: Frank Hill, Turner Street.

CARNIFAL. Profodd eleni'n flwyddyn lewyrchus i'r carnifal unwaith eto a chafwyd wythnos brysur o weithgareddau.

Y Gystadleuaeth Pwll. Ni'n siomys gyda safon y gystadleuaeth (er i ambell un anhysbys brofi lwc anghredadwy!). David Ellis oedd y pencampwr am yr ail flwyddyn yn olynol yn dilyn rownd derfynol agos yn erbyn ei frawd mawr! Derbyniodd David dlws coffa Selwyn Davies a llun olew unigryw a wnaethpwyd gan Selwyn. Ein diolch cynhesaf i Mrs Shirley Davies am y rhodd arbennig yma ac am ei geiriau caredig, ac i'r teulu cyfan am eu cefnogaeth gyson. Noson Gwis. Roedd angen clamp o wyddoniadur manwl ar ymgeiswyr y cwis eleni! Daeth nifer i Dy'n Llan ar y nos Fercher i gystadlu am y wobwr gyntaf o £20. Tim Gogs Yn Y Gornel oedd yn fuddugol a hynny wedi cwestiwn tyngedfennol hynod agos. Diolch i bawb a oedd yn bresennol ar y noson — yn enwedig Mr Meirion Griffiths am drefnu'r cwestiynau yn ôl ei arfer. Diolch yn fawr.



Mrs Shirley Davies yn cyflwyno tarian goffa Selwyn Davies a'r darlun olew i David Ellis.

Noson y Carnifal. Croesawodd yr heulwen gannoedd o bobl i faes parcio'r pentref ar nos Wener, 21 o Orffennaf ble cafwyd y miri a'r hwyl arferol gyda'r cystadlaethau niferus. Y beirniad eleni oedd Dr Alice Oddy a Mr a Mrs Rolant Wynne — hoffem ddiolch o galon iddynt am eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i gyfrannu at yr achlysur.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y carnifal eleni — aelodau'r pwyllgor, yr holl wirfoddolwyr a gynorthwyodd ar y nosweithiau a'r nifer o fusnesau ac unigolion lleol a gyfrannodd anrhegion at y raffl a'r stondinau amrywiol. Diolch i Samantha ein brenhines, Mr Gwynedd Roberts, ein 'MC' ac i Ann a Jim Cumberton am adael inni gynnal y ddwy noson yn eu tafarn.

CANLYNIADAU'R CARNIFAL.

0-3bl. NANT yn unig: 1. Jordan, 2. Gareth a Megan. AGORED: 1. Ellie Thomas, 2. Jordan a Gareth. 4-5bl. NANT: 1. Kate, 2. Ariann, 3. Jessica. AGORED: 1. Kate, 2. Jessica ac Ariann, 3. Callum. 6-8 NANT: 1. B.J., 2. Janie, 3. Miriam. AGORED: 1. B.J., 2. Janie a Miriam, 3. Gethin a Llion. 8-11 AGORED: 1. Meical a Lilly. 11+ NANT: 1. Gwen, AGORED: 1. Sioned Jones, 2. Carmen, 3. Gwen. OEDOLION: 1. Hefin ac Andrew. Gwisg Orau'r Noson: Sioned Jones.

Babi Bochgoch: Pawb yn deilwng o'r wobwr gyntaf. Gliniau Codog: 1. Douglas Ellis. Het wedi ei haddurno: 1. Alaw, 2. Bedwyr.

Y RASUS. Dan 5 oed: 1. Gethin, 2. Ayesha, 3. Gwen; 5-8 oed: 1. Llion ac Emma, 2. Manon; 9-11 oed: 1. Gwen, 2. Carwyn, 3. Angharad; 11+: 1. Alaw, 2. Sammy a Sioned; Ras Deircoes: 1. Gwen ac Alaw, 2. Carys a Sioned, 3. Laura a Kelly.

Y RAFFL. 1. £50.00 - Sam, 2. Siaced fleece - Hefin, 3. Hamper - Albert, 4. 2 docyn gan Reilffordd yr Wyddfa - Philip, 5. Cinio i ddau yng ngwesty'r Victoria - Glenys, 6. £15 Beran - Rhiannon, 7. Lamp Eliffant - Bill, 8. Blodau o Racca - Cledwyn, 9. Gwin Lambrini - Sandra, 10. Bwyd ci - Carys, 11. Sach o lo - Sally, 12. Cinio i ddau yn Meifod - Brenda, 13. 2 docyn SMR - Kaz, 14. Baged o ffrwythau - Robin, 15. Gwin - Ann. Pêl-droed wedi ei harwyddo gan dîm Wrecsam - Steve.

Dyfalw Pwysau'r Oen (43.5kg) - Elwyn.

YMRYSON CŴN DEFAID NANT PERIS A'R CYLCH, AWST 2000. Er gwaethaf y tywydd gwlyb dydd Sadwrn roedd y treialon a gynhaliwyd ar 11 a 12 Awst yn llwyddiannus. Daeth cystadleuwyr o bob rhan o ogledd Cymru a braf oedd cael llawer o gystadleuwyr yn cystadlu am y tro cyntaf yn y Nant.

Dyma'r canlyniadau: Dosbarth Agored: Cwpan 'Morris Bros'

1. Gwyn Owen, Llanerchymedd gyda Jaff; 2. Gwyn Owen eto gyda Ziggi; 3. Mick Lee, Bangor gyda Roy; 4. J. Ryan Griffith, Talysarn gyda Nel; 5. Morris Evans, Llanystumdwy gyda Judy; 6. Medwyn Evans, Llanfachreth gyda Chip; 7. Glyn Jones, Bodfari gyda Jess; 8. Iolo Jones, Corwen gyda Caio; 9. Ellis Williams, Llanwnda gyda Sweep; 10. Alan Wyn Jones, Nazareth gyda Roy.

Ail Ddosbarth: Cwpan 'Wavell Roberts'

1. Elwyn Griffith, Waunfawr gyda Craig; 2. Alan Wyn Jones, Nazareth gyda Roy; 3. Pennant-Williams, Treuddyn gyda Bet; 4. Vaughan Hughes, Rhosmeirch gyda Flo; 5. Mick Lee, Bangor gyda Shep; 6. Rheon Owen, Clynnog gyda Meg.

Enillwyd Tarian Gwesty'r Fictoria (y gorau lleol yn y dosbarthiadau Agored /Ail Ddosbarth gan Donald Pritchard, Llanrug.

Cwpan 'Gwesty Dolbadarn'

1. John Williams, Bethel gyda Jill; 2. Donald Pritchard, Llanrug gyda Moss; 3. Dafydd Pritchard, Nant Peris tyda Tomos; 4. W. Arthur Williams, Bethel gyda Ben; 5. John Morgan, Bethel gyda Mick; 6. John Closs, Llanberis gyda Bob.

Enillwyd Tlws Cwmni Tithebarn (gorau dros 50 oed lleol) gan Donald Pritchard, Llanrug.

Enillwyr y Raffl oedd 1. Anwen Griffith, Nant Peris - £100; 2. Dewi (670402) - £50; 3. Eluned Coles (650427) - £25; 4. CSJ (01745 710470) - Ornament; 5. Anwen Griffith, Nant Peris - Ffrwythau; 6. (01407 741903) - Whisky; 7. Cameron John, Dyfed - Tocyn Trên y Llyn; 8. Gareth, 27 Dôl Elidir - Vodka; 9. Alan Jones, Pontllyfni - Whisky; 10. (01248 670975) - Glo; 11. (872046) - Cap Fleece; 12. Beth (871326) - Haversack; 13. (830287) - Glo; 14. Mike H.D. - Tocyn Cig.

Hoffai'r Pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r caasgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £32.79 yn Nant Peris gan Prydwen Pritchard. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU hwyr i David Welsby ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Orffennaf 12. Hefyd llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant yn ei Lefel A ac ar gael ei dderbyn i'r coleg yn Aberystwyth. Pob lwc i ti David ar ddechrau gyrfa newydd yn y coleg.

DIOLCH. Dymuna David Welsby ddiolch i'w deulu a phawb am y cardiau a'r pres a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.



John a David Ellis wedi rownd derfynol y Pwll.

 **Cig Bethel**  

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN

★
PORC LLEOL

★
**GWYLIWCH AM EIN PRISIAU
ARBENNIG AM WYN LLEOL**

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

PRYD I BAWB
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

- cinio busnes
- bedydd
- pen-blwydd
- te angladdau

CERID MACKINNON
(01286) 673190



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Y CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb am fisoedd Gorffennaf ac Awst.

GORFFENNAF. £40: Mrs Gweneirys Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon; £25: Mr Dylan Jones, Eryri Wen; £10: Mr Bryn Griffiths, Gorffwysfa.

AWST. £40: Mrs M.B. Davies, Bryn Eithin; £25: Mrs Beryl Jones, Dol y Coed; £10: Mr I. Bracegirdle, 2 Bro Waun.

Y TRÊN BACH. Cafodd pentref y Waun ychydig o sylw gan y cyfryngau a'r wasg yn ystod yr wythnosau diwethaf. Digwyddiad hanesyddol oedd clywed a gweld y trê'n bach yn symud ar hyd y cledrau yma o Gaernarfon, ac yn llawn teithwyr bob tro.

EISTEDDFODOL. Y tristwch o golli cyfaill a symbylodd Dylan Iorwerth i gystadlu yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch ac fe ddaeth ei atgofion a chlod a llwyddiant iddo. Cydymdeimlwn ag ef yn ei golled ac ymfalchiwn yn llwyddiant un a fagwyd yma yn y Waun. Llongyfarchiadau calonnog iti Dylan.

Llongyfarchiadau hefyd i Meg Elis, Glanfa ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Soned yn yr Eisteddfod.

ARHOLIADAU CERDDOROL. Bu Helen Jones, Cae Trefor yn llwyddiannus yn arholiad Gradd 1 Dawnsio Gwyddelig; bu Carla Esposito, Betws Garmon yn llwyddiannus gyda Anrhydedd yng Ngradd 2 arholiad Clarinet; derbyniodd Rebecca Sanderson, Bro Waun deilyngdod yn arholiad Gradd 2 Clarinet a Nia Elin Jones, Cae Trefor yn derbyn teilyngdod yng Ngradd 1 Arholiad Clarinet.

Derbyniodd Mererid Gordon, 13 Bryn Golau deilyngdod yn arholiad chwarae Piano Gradd 2; Nia Williams, Plas Bodhyfryd a Nia Griffith, Stad Tŷ Hen yn derbyn teilyngdod yng Ngradd 3 arholiad Piano; Lowri Hughes, Pendas Eithin yn derbyn teilyngdod yng Ngradd 4 arholiad Piano; Ieuan Parry, 8 Pant Waun yn llwyddiannus yn arholiad Piano a Manon Evans, Arfryn yn llwyddo yn arholiad Piano Gradd 7.

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch a daliwch ati.

LLONGYFARCHIADAU i'r bobl ifanc fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau coleg ac ysgol a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cychwyn gyfa mewn ysgol, coleg a swydd ar ddechrau tymor newydd.

YMDDEOLIAD. Dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus i Eifion a Rose Ann Hughes, Tref Eilian. Eifion yn ymddeol o'i swydd gyda British Telecom a Rose Ann o'i swydd dysgu yn Ysgol Syr Hugh Owen.

PRIODAS. Dymunwn briodas hapus i Helen Clough, Ynysoedd a Chris Bidden o Gaer.

Hefyd i Gwyn Parry, Ffridd Felan a'i briod, Julie. Maent wedi ymgartrefu yn Rhiwlas.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu Rhys Huws, Argoed; Anthony Whitehead, Gwyndy (Siop Chips) ac Elin Evans, Arfryn yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Llongyfarchiadau ichi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Bu Kirsty Jones, Cynefin hefyd yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain. Llongyfarchiadau iddi ar lwyddo yn ei chwrs R.G.N. yn Ysbyty Gwynedd.

GENDIGAETHAU. Bendithiwyd y teuluoedd sy'n dilyn â genedigaeth un bach:-

Bachgen bach, Aled Llwyd, a anwyd i Nia a Gary, Stad Tŷ Hen, brawd a ffrind bach i Dafydd Llwyd ac ŵyr arall i Dewi a Beryl Lloyd Jones, Dôl y Coed.

Ganwyd ŵyr bach, Dion Glyn, i Mr a Mrs Marc Jones, Ael y Bryn, mab bychan i'w merch Sharon a'i phriod Meirion a brawd bach i Erica a Bethan.

Ganwyd dau Jac 'bach' i'r pentref, y naill i deulu Tŷ Capel, Croes y Waun a'r llall i deulu Glan Gwyrfa. Brawd bach i Ruby ac ŵyr bach i Don ac Eluned Roberts, Sŵn y Gwynt.

Ganwyd efeilliaid, Morgan a Guto i Iola a Rhys, Tegannedd, brodyr bach i Gwenllian. Gorfu i Guto fynd i adran babanod Ysbyty Glan Clwyd am gyfnod, ond erbyn hyn mae wedi cael dod yn ôl i Ysbyty

Gwynedd. Hyderwn yn fawr y bydd yn cryfhau yn ddyddiol ac yn dod adref i Degannedd yn fuan.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd i gyd a chroeso cynnes i'r rhai bach. CROESO YN ÔL. Croeso i Valmai, Paul a Sion Tudur yn ôl i fyw i'r pentref ar ôl bod yng Nghaeathro am gyfnod. Maent wedi ymgartrefu yn Bod Gwilym.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso i Mrs Iris Owen, Stad Tŷ Hen; Mrs Joyce Steener, Pant Waun; Mrs Dilys Griffith, Tref Eilian; Mr T.H. Williams, Llwydiarth a Mr Gareth Roberts, Bro Waun adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Bu Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris a Mr Arthur Ellis, Min y Nant yn yr ysbyty hefyd yn derbyn triniaeth i'w llygaid. Dymunwn wellhad buan ichi i gyd ac hefyd i Sioned Owen (Surgery doctor) sydd wedi cael triniaeth tynnu tonsiliau.

CYDYMDEIMLO. Ni fu tymor yr haf heb ei golledion i rai teuluoedd, ac anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad dwys atynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl.

Yn dawel yng nghartref preswyl Y Foelas, Llanrug yn 97 lwydd oed bu farw Mrs M. Jones, Pant Cae Haid. Cydymdeimlwn â Dr Prys Morgan Jones yn ei brofedigaeth o golli mam.

Yn Ysbyty Bryn Seiont, bu farw Mr John Edwards, Groeslon Isaf. Cydymdeimlwn â Mrs Edwards a'i dwy ferch yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Yvonne Beech, Rose Mount yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer; â Mr Roy Jones, Cynefin yn ei brofedigaeth o golli brawd ac â Mr Ovary, Pant Waun yn ei brofedigaeth o golli mab.

PATAGONIA. Daeth gwyliau'r haf i ben unwaith eto. Bydd gan lawer ohonom atgofion am wyliau braf, ond fe fydd gan ddwy o'r pentref, Delyth Jones, Tan y Coed a Marion Iwan, Afallon lawer iawn o atgofion ar ôl treulio cyfnod ym Mhatagonia.

Rwy'n siŵr fod Mrs Enid Williams, Heli wedi mwynhau cwmni ei mab, Iorwerth a'i deulu, a fu adref am wyliau o 'Ynysoedd y Cayman'.

LLONGYFARCHIADAU O'R SIOE. Derbyniodd Mrs Llinos Dinwoody, Y Garth wobrau lu am ei champweithiau gwau gyda pheiriant yn Sioe Gogledd Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddi.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd

y swm o £332.22 yn Waunfawr gan Iolo Hughes Roberts, Nan Hughes Roberts, Eirian Jones, Olwen Owen a Marian Jones. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

DIOLCH. Dymuna Garry, Nia a Dafydd Griffith, Dolydd, Stad Tŷ Hen ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth Aled Llwyd.

DYWEDDĪAD. Dymuniadau gorau i Delyth Jones, Hafod y Rhug (Cyrnant Lodge gynt) ar ei dyweddïad â Mark o Gaernarfon. DATHLU PEN-BLWYDD. Anfonwn ein cyfarchion a'n cofion cynhesaf at Mrs Arianwen Thomas (Anti Arian cinio'r ysgol) fydd yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed. Pen-blwydd Hapus Anti Arian.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan at Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i Mrs Rhiain Jones, Stâd Trefeilian, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Ehangu Gorwelion Myfyrwyr Hŷn



Ma 'na lawer i'w ddweud dros fynd i Brifysgol fel myfyriwr hŷn — rhaid dim ond edrych ar ganlyniadau rhai o'r myfyrwyr hŷn o'r ardal leol a fu'n graddio o Brifysgol Cymru Bangor gyda Graddau Dosbarth Cyntaf eleni!

'Gall myfyrwyr aeddfed ddod â nifer o brofiadau bywyd gyda hwy i changu ar eu profiadau dysgu yn y Brifysgol,' meddai Dr David Roberts, Cofrestrydd y Brifysgol. 'Er eu bod yn wynebu rhwystrau yn aml, wrth ddelio gyda gofynion Prifysgol a chartref, maent hefyd wedi datblygu sgiliau personol fel rheoli amser a phennu blaenoriaethau, ac mae ganddynt fwy o hunanddisgyblaeth wrth eu hastudiaethau.'

Bellach, mae gan Keith Jones o Dal Minffordd, Llanrug, swydd y buasai sawl un yn ystyried fel swydd ddelfrydol, fo yw Warden newydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Eryri — o gopa'r Wyddfa i lawr at y traethau. Enillodd Keith y swydd wedi gwynebu cystadleuaeth lem. Graddiodd eleni gyda gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Rheolaeth Cefn Gwlad. Dywed Keith, sydd yn 31 oed, ei fod ef a'i wraig yn falch iawn o'i lwyddiant!

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun, Gorffennaf 17, dan lywyddiaeth Mrs Elinor Williams daeth yr aelodau ynghyd i'r Ffestri am eu cyfarfod olaf cyn gwyliau'r haf. Darllenwyd llythyr y mis gan yr ysgrifenyddes, Mrs Pat Jones. Judy Ling Wong, FRSA, MBE, o Lanberis oedd y wraig wadd a bu'n sôn am ei gwaith yn hyrwyddo grwpiau ethnig i werthfawrogi'r amgylchfyd. Mai Davies a Gwenda Roberts oedd gwesteion y te. Cyflwynwyd gwobr y mis gan Ifanwy Jones ac fe'i henillwyd gan Gwenllian Edwards. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Medi 18.

PROFEDIGAETHAU. Daeth profedigaeth i ran Mrs Dilys Evans, Min y Don ym marwolaeth ei brawd, y diweddar Mr Gwilym Orwig Jones, Gwyndy Newydd, Stryd Fawr, Bryngwran ar Orffennaf 14, yn 58 mlwydd oed. Er mai yn Ynys Môn y'i magwyd, yn 1 Tai Orwig y ganwyd ef a byddai yn ymweld â'r pentref yn gyson ac yn treulio gwyliau yma yn ystod ei flynyddoedd cynnar. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Dymuna Mrs Dilys Evans a theulu y diweddar Gwilym Orwig Jones ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt. Hefyd am y rhoddion a drosglwyddwyd tuag at gronfa Bws Mini Plas Crigyll, Bryngwran. Diolch yn fawr i chwi i gyd.

Ar Orffennaf 25, bu farw Mr Ifor Jones, Adwy'r Dŵr yn 86 mlwydd oed. Bu y gwasanaeth angladdol cyhoeddus yn Amlogfa Bangor ddydd Llun, Gorffennaf 31. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Caryl ac Anwen Jones, Na Nog ar eu llwyddiant mewn arholiad Piano Gradd 1. Bu Rhian Morris, 5 Minffordd yn llwyddiannus hefyd yn yr arholiad Gradd 2 i Gorned dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Gwyn, Rhandir ar gymhwysio yn ddiweddar fel cyfreithwraig. Yn dilyn bu Catrin am gyfnod byr yn gweithio ym Mlaenau Ffestiniog. Y mis hwn bydd yn cychwyn ar swydd newydd fel darlithwraig yn y Gyfraith yng Ngholeg Meirion Dwyfor.

COFION. Dros gyfnod y gwyliau bu nifer yn ein plith heb fod yn dda eu hiechyd a rhai wedi bod am gyfnodau yn Ysbyty Gwynedd — Jennie Hughes, Bryn Parc; Gwyneth Evans, Ty'n Buarth; Helen Maud Jones, 5 Trem Eilian; Islwyn Williams, Dinorwig House; Colin Wager, Y Llythyrdy; Dylan Jones, 11 Trem Eilian ac Aiden Christy, 7 Trem Eilian. Dymunwn adferiad buan iddynt oll.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jennie Hughes ddiolch i bawb am bob caredigrwydd tra bu yn Ysbyty



BRYNREFAIL A'R YSGOL SIROL. Dyma lun a dderbyniwyd trwy law Mr Robert Jones, Penisarwaun sy'n dangos rhai o dai y pentref

gyda'u gerddi cyn adeiladu'r palmentydd, y Capel a thŷ'r Gweinidog a'r Ysgol Sir fel y'i hadeiladwyd yn 1900.

Gwynedd ac wedi dod gartref. **YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMDEITHAS Y CAPEL.** Nos Iau, Gorffennaf 13 gyda Ellen George, Sŵn yr Engan yn cadeirio daeth cynulliad da o'r aelodau ynghyd i'r Ffestri. Roedd y defosiwn dan ofal Mrs Mair Wyn Davies. Y siaradwr gwadd oedd Mr Richard Lloyd Jones, Bethel. Dan y teitl 'Gwerth Geiriau' cafwyd ymdriniaeth ddiddorol, dwys a digrif ar le'r gair ysgrifenedig a llafar mewn gwahanol sefyllfaoedd ac amgylchiadau ar daith bywyd. Diolchwyd iddo ar ran y Gymdeithas gan Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Gwesteion y te oedd Bethan Lambert a Dwynwen Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, Medi 14 pryd y disgwylir cwmni Annette Bryn Parri.

OEDFAON MEDI. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau'r mis:

3: Y Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 2.00. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;

10: Y Parch James Clarke, Y Groeslon am 2.00

17: Mr Norman Closs Parry, Treffynnon am 10.00

24: Mr Huw Jones, Llanwnda am 5.30

CYRSIAU COLEG MENAI. Yn dilyn yr ymateb i'r Holiadur a ddosbarthwyd i'r aelodau yng nghyfarfod Cymdeithas y Capel fis Gorffennaf ynglŷn â chysiau yn y gymuned, dangoswyd diddordeb cadarnhaol mewn nifer o gysiau. Gobeithir trefnu cwrs yn un o'r testunau a ddaeth i'r brig yn y dyfodol agos.

LLONGYFARCHIADAU i Rhian Wyn Morris, 5 Minffordd am basio ei harholiad Gradd 2 gyda'r Cornet. Dal ati!

DRAENOG

Glywsoch chwi hanes y wraig o Lanber aeth am drip i Shrewsbury. Meddwl bod y lôn wedi altro dipyn er pan fu yno y tro diwethaf a bod y bws yn cymryd mwy o amser nac arfer.

Sylweddoli ar ôl cyrraedd mai i Southport yr oedd y trip wedi dod. Biti a hithau wedi meddwl cael gweld y blodau. MATer rhyfedd yn Te Iddi wneud hyn, a hithau yn arfer arwain rhai eraill.

CO-OP LLANRUG

- * Bydd y siop yn agor tan 7pm bob Nos FAWRTH a Nos IAU
- * Mae defnyddiau garddio - grobags, gwrtaith etc mewn stoc.

bwyd a nwyddau o safon holl anghenion y ty yn lleol

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

Wavell Roberts CIGYDD

London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

LLONGYFARCHIADAU I Natalie, Dolwen, Ffordd yr Orsaf ar ei llwyddiant gydag anrhydedd, mewn arholiad Canu Gradd 1 o dan yr Associated Board.

I Dewi Wyn Jones, 19 Bro Rhyddallt, fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fedi 5, oddi wrth y teulu i gyd.

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr â Mr a Mrs Cemlyn Williams ac Ellen, Rathbone Terrace, Groeslon (Tan-y-coed gynt) yn eu colled trist yn dilyn marwolaeth eu merch a chwaer, Sioned, yn 16 oed.

Ar ôl gwaeldd bu farw mam Mrs Pat Jones, Swyddfa'r Post ac estynnwn ein cydymdeimlad iddi hithau a'r teulu i gyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwawr, Rhiannon ac Evelyn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at sêl cist car ar gyfer Cronfa Steffan. Gwnaed elw o £160.00.

Dymuna Mrs Mair C. Jones, 17 Glanmoelyn ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardia, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fehefin 24.

LLONGYFARCHIADAU i Colin a Lynn Jones, Glanffynnon Bungalow ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed ar Orffennaf 25. DIOLCHIADAU. Dymuna Betty Roberts, 2 Garth Drive, Gaerwen ddiolch i'w ffrindiau ac yn arbennig i Brifathro a staff Ysgol Brynrefail am y cardia, blodau ac anrhegion hardd a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o'r ysgol ar ôl 30 o flynyddoedd.

LLONGYFARCHIADAU. Dymunwn longyfarch plant a phobl ifanc y pentref yn eu llwyddiant yn arholiadau'r ysgol a choleg eto eleni. Pob llwyddiant a hapusrwydd iddynt yn y colegau a'u gyrfaedd newydd.

GRADDIO. Dyna fu hanes dau aelod o'r un teulu ym Medw Gwynion yr haf yma. Derbyniodd Llŷr Sion Roberts radd BA mewn Hanes Fodern yng Ngholeg Oriel, Prifysgol Rhydychen ac erbyn hyn mae'n gweithio fel newyddiadurwr gwleidyddol i'r BBC — yn rhan o'r tîm sy'n paratoi rhaglenni o'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer S4C, a ddarlledir ar deledu digidol.

Derbyniodd Mary Roberts, mam Llŷr, radd B Phil gan Brifysgol Birmingham. Bu'n mynychu'r coleg ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol gan arbenigo yn y maes addysgu plant ag anhwylderau ieithyddol, maes y mae'n ymwneud ag o o ddydd i ddydd fel athrawes yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £443.33 yn Llanrug gan Mair E. Jones, Julie Jones, Beryl Thomas, Avril Jones, Meirwen Lloyd, Mair Parry, Gwenda Roberts, Carys Wynne, Bethanne Williams, Jane Jones ac Eirianwen Thomas. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Bethan Mackinnon, Plas Tirion ar lwyddo mewn arholiad ysgrifenedig Gradd 5 yn ddiweddar, dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Brenhinol.

DRAENOG



Mae rhyw englyn yn sôn yn rhywle am 'gamp hwn yn y cwm pell' ac agosatrwydd y bugail a'r ci defaid. Mae'n ymddangos fod un o 'amaethwyr' y fro yn hael iawn gyda'i gi. Clywed amdano'n mynd o gyffiniau Bethel i hel defaid ar lethrau'r Wyddfa. O gyrraedd, sylwi ei fod wedi gadael y ci gartref. Tybed a fu'n chwibanu arno fo'i hun ar y llethrau! Does'n bethau rhyfeddol yn digwydd mewn cysylltiad â defaid yn perthyn i'r Morganiaid!

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

MERCHED Y WAWR. Ar Orffennaf 15 aeth aelodau Merched y Wawr ar eu gwibdaith flynyddol. Y tro hwn, aethom i'r Wyddgrug a chawsom groeso rhagorol yng Nghapel Bethesda gan Elizabeth Snowdon (gynt o Borth-y-gogledd) a chyfeillion eraill.

Aethpwyd â ni o gwmpas y dref gan y Dr Aled Lloyd Davies, a dangosodd i ni leoedd o ddiddordeb ym mywyd Daniel Owen a'r cerddor J. Ambrose Lloyd, awdur y dôn 'Wyddgrug'. Mwynhawyd ei sylwadau yn fawr iawn gan bawb.

Cawsom egwyl fach wedyn yng Nghanolfan Afonwen a phryd o fwyd rhagorol mewn gwesty cyfagos.

Cawsom dywydd hyfryd a diwrnod a fwynhawyd yn fawr. Diolch yn fawr i'r trefnydd, Margaret Ellen Jones, am ei gwaith.

RAFFL FLYNYDDOL Y BAND. Yr enillwyr eleni oedd £100: Robin Owen, Cyngor Gwynedd; £75: Emily Jones, Gwêl Elidir, Penisarwaun; £50: Gwyn Oliver Jones; £25: Debbie Owen, Bangor.

Mae'r Band a'r Pwyllgor yn diolch i bawb am eu cefnogaeth. SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £336.71 yn Neiniolen gan E. Thorman Jones, E.M. Williams, Eirian Jones, Lorna Lewis, Helen Jones, Margaret Thomas, Caryl Thomas ac Anna K. Williams. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Eirug Wyn am ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2000. Mae ef yn fab i Mrs E. Wynne, Llanfairpwllgwyngyll ac i'r diweddar Barchedig J. Price Wynne, cyn-weinidog Cefnywaun.

Llongyfarchiadau hefyd i Llïon Elis Jones, Bangor ar ennill y Gadair Genedlaethol. Mae ef yn fab i Mrs Nansi Jones, Abergele ac i'r diweddar Barchedig Isaac Jones, un arall o gyn-weinidogion Cefnywaun. Rydym yn falch iawn o lwyddiant y ddau.

Llongyfarchiadau i holl bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn eu harholiadau.

DIOLCH. Dymuna Jeni Lyn, Cartref, Rhes Cynfi ddiolch o galon i bawb am y llu cardia, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

DYMUNA Ellis Wyn a Margaret, 6 Ffordd Deiniol ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a'r cardia a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. PRIODAS. Dymuna Ian a Mari, 3 Hafod Oleu ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am yr anrhegion, arian a'r cardia a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas yn ddiweddar.

DYMUNA Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog ddiolch o galon i'w theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Hefyd diolch i'r teulu am y parti.

DIOLCH. Dymuna Euros, Hafle, Rhes Faenol ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardia, arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar ôl iddo raddio.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Williams, Hafle, Rhes Faenol ar ei ddywedd i'w Lorraine Baillie o'r Alban, a charent ddiolch yn fawr iawn am y cardia a'r anrhegion.

Pob lwc i ti Iwan yn dy swydd newydd fel athro Cerdd a Drama ym mis Medi.

DIOLCH. Dymuna Mrs Sally Lewis (Anti Sali i bawb) 5, Bro Deiniol ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion ac aelodau Cefn y Waun am y llu cardia a blodau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go iawn ★

Dilyn Epitaff



Newyddion am 'Follow Me', CD newydd gan y band Epitaff

Mae'n bleser gan Recordiau Gwynfryn o Geunant, Llanrug gyhoeddi y byddant yn rhyddhau CD hir ddisgwyliedig Epitaff, ar ddydd Llun, Medi 11. Bydd y CD yn cael ei lawnsio yn swyddogol yng nghyngerdd Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail ar 29 Medi.

Ers perfformiad cyntaf y band ym mis Tachwedd 1997 mae Epitaff wedi cynnal nifer o nosweithiau llwyddiannus ar hyd a lled Cymru a Lloegr, ac wedi datblygu enw da a chefnogaeth driw iddynt eu hunain.

Fe ffurfiwyd y band Epitaff yn Hydref 1997 gan dri o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Brynrefail, Llanrug. Ar y drymiau mae Dewi Thomas, yn chwarae'r gitâr a'r sacsoffon mae Huw Llywelyn Jones ac yn chwarae'r gitâr acwstic mae'r prif leisydd Ynyr Gruffudd Roberts. Wedi blwyddyn o hyrwyddo'r grŵp i frig y sîn roc ifanc yma yng Nghymru, ymunodd dau aelod newydd â'r band, Eurig Roberts i chwarae'r gitâr fas a Mathew Thomas i chwarae'r gitâr rythm.

Ym mis Mawrth 1999 rhyddhaodd Recordiau Gwynfryn y CD, *Dyddiau Cynnar*. Dyma oedd cynnyrch cyntaf Epitaff a oedd yn cynnwys pum cân ganddynt. Wedi hynny

ymddangosodd dwy o ganeuon Epitaff ar y CD lwyddiannus, *Mewn Undeb Mae Nerth*.

Follow Me yw cynnyrch diwedddara Epitaff, sy'n cynnwys pedair cân Gymraeg a dwy gân Saesneg. Recordiwyd y CD yn stiwdio newydd 'Gwynfryn', yn Waunfawr. Dywedodd Ynyr, prif leisydd y band, 'Mae hi'n braf iawn cael recordio yn ein stiwdio ein hunain, ac yn wir roedd rhan fwyaf o'r sesiynau recordio yn llawn gwaith byrfyfyr ac mae'r awyrgylch *relaxed* yma yn cael ei adlewyrchu yn y gerddoriaeth sydd ar y CD.'

Fe gymerodd hi tua mis i'r band recordio'r caneuon dan ofalaeth eu cynhyrchydd Bob Galvin. 'Mae naws y gerddoriaeth sydd ar y CD yma yn llawer mwy aeddfed a phroffesiynol na'r caneuon yr ydym wedi recordio o'r blaen,' ychwanegodd Ynyr. 'Mae o wedi bod o fudd mawr i ni recordio efo Bob, sydd hefo profiad enfawr o'r byd cerddoriaeth, ac mae'n ddiddorol ei glywad o'n sôn am yr amser y buodd o ar *Top of the Pops*.'

Mae'r dyfodol yn argoeli'n addawol i Epitaff, ac efallai mai adrodd eu hanes eu hunain ar *Top of the Pops* y bydd yr hogiau yn ei wneud yn fuan.

Gwybodaeth gan Bryn Roberts, 'Recordiau Gwynfryn' (01286) 650523; e-bost: epitaff@Roberts485.freemove.co.uk

Nodi'n cael ei Arestio

Yn ddiweddar, cafodd pobol dipyn o sioc wrth weld Plismon yn cyhuddo Nodi o barcio ei 'gar bach melyn a choch' ar linellau dwbwl melyn! Yn waeth fyth, roedd Jac y Jwc yn cael ei amau o yfed a gyrru! Ond, roedd y cyfan o dan reolaeth, gan fod Sam Tân ac O.P. Huws ar ran Sain yn gofalu am bopeth.

Lansiwyd Cynllun arbennig rhwng Recordiau Sain, Llandwrog a Phencadlys Archfarchnad Safeway yn Llundain. Syniad Mr Huws oedd ffurfio Asiantaeth o'r enw 'Welsh Entertainment / Pethau Difyr' sy'n cyflenwi cynnyrch Cymraeg i wyth cangen yng Nghymru. Byddant o hyn ymlaen yn gwerthu Fideos a cherddoriaeth Cymraeg, yn ogystal â llyfrau. Mae Sain yn cyflenwi llyfrau gan Wasg Carreg Gwalch a Gomer i Safeway fel rhan o'r Cynllun arloesol yma.

Daeth cannoedd o blant i'r lansiad yng nghanen Caernarfon ar ddechrau

Gorffennaf. Cafwyd cyflwyniad- au gan blant Adran Bentre Llanllyfni. Buont yn adrodd o dan arweiniad Mrs Emyllt Davies, ac yn canu dan ofal Mrs Alwen Jones. Hefyd daeth Sasha Williams o Fethel ag ychydig o liw i'r diwrnod trwy ddawnsio disgo, ac roedd plant yn cael peintio eu hwynebau a chael balwnau gan Safeway.

Roedd ymrafael mawr rhwng y plant wrth drio manteisio ar y cyfle i yrru car Nodi a thractor Tecwyn. Daeth Sam Tân yno i ysgwyd llaw, ac roedd yr holl beth yn cael ei lywio gan y cymeriad hoffus, Jac y Jwc. Bu'n sgwrsio am oriau efo'r plant!

Cfwyd gair ar ran Sain gan O.P. Huws ac ar ran Gwasg Carreg Gwalch gan Myrddin ap Dafydd. Meinir James oedd yn cynrychioli Gwasg Gomer. Diolchodd Emlyn Parry i bawb am eu cyfraniad ar ran Safeway, Caernarfon, a darlledwyd rhan o'r lansiad ar y rhaglen Heno ar S4C.



Sasha Williams efo Jac y Jwc



Annette Pryn Parri a Brenhines Carnifal Llanberis, Sophie Jarvis.



**STRYD FAWR
LLANBERIS**

**21 Hydref-
11 Tachwedd**

**Eisteddfod y Wladfa, Patagonia ac
ymweld â llefydd o ddiddordeb
hanesyddol yng nghwmni Penri Jones
(awdur 'Jabas'). Dim ond lle i 4 ar ôl.**

Manylion pellach am ein holl deithiau
(01286) 872777

Ellis Williams

(parhad o dud. 6)

wneud elw o tua £1000 y flwyddyn. Roedd yn sôn am godi hadau alfalfa. Crop da yn talu 2 swllt y pwys ac mi fedra gael 4-5 tunnell o'r tir.

Yn ei lythyr mae'n gofyn i Evan Hughes (fy nhaid) i ysgrifennu. 'Galwad y Tywysog' a 'Llam y Cariadon'. Roedd yn cofio'r diwn ond doedd ganddo ddim miwsig — wedi eu gadael yn Ne America.

Mewn llythyr arall mae'n sôn ei fod wedi lladd dwy neidr fawr tua 7 troedfedd o hyd — Carpet Snakes. Roedd un wedi plethu ei hun ar ben giât haearn. Difaru na fuasai wedi eu blingo i wneud belt.

Yn ei lythyr Gorffennaf 1916 dywed ei fod wedi enlistio â'r fyddin — Australian Imperial Force. Mae llun o Ellis yn filwr gyda dyn tipyn hŷn. Ydw i ddim yn siwr a ddaeth adref i Gymru (rwyf yn credu ei fod wedi bod un waith). Cafodd ei ladd yn Ffrainc ym mwydr y Somme ar 7 Ebrill, 1918 yn 38 oed a'i gladdu ym mynwent Hangard Wood. Mae ei enw ar y gofologofn ym mynwent Llanddeiniolen a hefyd yn y War Memorial yn Canberra, Awstralia. Ie, gorfod gadael ei wlad yn ŵr ieuanc a trio

byw ym Mhatagonia ac Awstralia. Ymuno â'r fyddin a'i ladd yn ymladd dros ei wlad.

Penillion i gofio am Ellis Williams gan y bardd Dewi Orwig:

Â'r fyddin uno'n wirfoddol — a wnaeth
Yn yr ornest farwol,
Ellis, ŵr annwyl, siriol,
I lawr aeth, wylir o'i ôl.

Ei einioes, wladgar oesydd, — a roddodd
Dros ryddid i'r gwledydd,
Mewn llannerch bell mae'n llongydd
Yno ein serch ninnau sydd.

Yn ôl arferiad yr oes a'r teulu mae'r enw Ellis wedi ei gario ymlaen i'r genhedlaeth nesaf sef Ellis Jones, Cambridge, Ontario, Canada, mab i Harriet (chwaer Ellis) a ymfudodd yn 1920. Hefyd yr oedd Ellis Ifor Hughes, mab i Phoebe (chwaer arall) ac yn dad i awdur yr ysgrif yma, a John Ellis Williams, mab i Joseph Williams (brawd i Ellis).

Mae'r holl lythyrau oddi wrth Ellis Williams i'w deulu wedi eu rhoi yng ngofal yr Archifdy, Caernarfon ynghyd â lluniau ohono fel Gaucho a milwr, gan obeithio y byddant o fudd i rywun â diddordeb yn hanes y Cymry ym Mhatagonia neu New South Wales rhwng 1908 a 1916.

Eifion Hughes, 27 Nant Bychan, Moelfre, Ynys Môn

Brwydr Hangard Wood Ebrill 1918

Yn ôl disgrifiad Thomas Penrose Marks yn ei lyfr *The Laughter Goes From Life*

'Wedyn aethom ychydig filltiroedd i Villers Bretonneux. Doedd yna ddim bron yn weddill o'r dref, sydd yn llechu mewn pant. Yn rhai o'r heolydd yr oedd yna ffosydd bâs. Dim ond rhyw ugain llath oedd rhwng rhai'r Jerries a'r Aussies.

Roedd yr ymladd yma wedi bod yn anghyffredin o fileinig; law yn llaw yn aml gyda bidogau. Hwn oedd cyn belled ag y cyrhaeddodd y fyddin Almaenig yn ei hymgais i feddianu Amiens. Yn y fan yma yr ymosodasant yn heidiau a chawsant eu medi i lawr. Fel yr oedd un don yn

gwanhau a syrthio yn ei hôl; roedd un arall yn cymryd ei lle. Yn y fan yma yr ymladdodd y dynion o'r Never-Never hefo eu cefnau ar y wal a chau y ffordd a hyrddio'r Almaenwyr yn eu holau. Does yna ddim gwell ymladdwyr na'r Awstraliaid. Mae'r Huns eu hofn am eu bywyd ...

Ar hyd y codiad tir i'r Dwyrain o'r dref mae yna linellau o ffosydd lle y ceisiodd yr Almaenwyr durio ac ail sefydlu'r lein. Ond gyrrodd yr Aussies hwy oddi yno a'u herlid tros y grib ac amryw o filltiroedd y tu hwnt.'

John Ellis Williams, Allt Riwth, Llanrug

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith), 677438 (cartref)

GRADDIO O GOLEG.

Llongyfarchiadau i Aaron Cadwaladr Evans, Llecyn Clyd ar ennill Gradd BA, Dosbarth 2.1 efo Anrhydedd mewn Hanes ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

DISGWYL YN HIR. Naw (91) mlynedd ar ôl i Gyngor (Sir) Gwynedd ail-wynebu'r pafin rhwng canol y pentref a Bryn Eden, mae'r gweithlu wedi gorffen y gwaith trwy ail-osod y pafin ger y fynedfa i Fur Mathew, gyferbyn â'r arwydd 30mya newydd.

CAMPWRAIG. Roedd Hannah Hughes, Llyngele yn gyntaf yn y Naid Hir yng nghystadleuaeth sirol yr Urdd, Eryri ar gaeau'r Brifysgol ym Mangor yn ddiweddar. Hefyd enillodd y fedal aur mewn 'Judo' mewn cystadleuaeth agored ym Mhontarddulais a hynny yn erbyn cystadleuwyr o bob man ym Mhrydain.

MYNYDDWRAIG O FRI. Bu Jayne Lloyd, Bodawel ym Mynyddoedd y Rockies, Aspen, Talaith Colorado, U.D.A. am bythefnos ym mis Gorffennaf yn ffilmio nifer o gampau ar gyfer rhaglen deledu a fydd ar S4C yn y dyfodol. Bu'n sgîo, rhedeg, canwio, nofio, beicio, sglegrio a mwy fel aelod o dîm Cymru mewn cystadleuaeth ryngwladol.

TYNFA MISOL. Enillwyr y Tynfa Misol ar gyfer mis Gorffennaf oedd: £40: (70) Elfyn Roberts, 10 Erw Wen; £25: (08) Frances Wyn Williams, Bodwyn; £15: (91) Heather Thomas, 4 Bryn y Gof; £5: (92) Vernon Jones, Llain Meddygon.

Enillwyr mis Awst oedd: £40: (22) L. Williams, 'Refail; £25: (101) D. Parry, Cefn Rhos; £15: (19) G. Jones, Cefn Plas Glan Gwna; £5 (02) O. Evison, Cae Hopcyn.

SALWCH. Mae Mrs Violet Berry, Bryn Eden yn gwella mewn cartref nyrsio ar ôl cyfnod mewn ysbyty. LLYWYDD ETHOLEDIG. Yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Gorffennaf dewiswyd Dr Brynley F. Roberts, cyn-Lyfrgellydd Cenedlaethol Cymru yn Llywydd Etholedig y Gymanfa ar gyfer 2001-2002. Brodor o Aberdar yw Dr Brinley ond roedd ei dad â'i wreiddiau yng Nghaeathro a'i fam â'i gwreiddiau yn Y Bontnewydd. Pwy oedd ei dad? Fe hoffwn wybod hanes y teulu yma yn y gogledd.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn y Ganolfan, Y Waunfawr ar nos Lun, 31 Gorffennaf. Roedd y Cyng. Vera Roberts a Clive James yn bresennol.

Bydd Cadeiryddion y Cyngor Cymuned a Chymdeithas y Cae Chwarae yn cyfarfod er mwyn trafod rheolaeth dyddiol y llecyn chwarae newydd a chyflwyno pecyn i'r ddau gorff maes o law. Doedd dim ateb oddi wrth Gyngor Gwynedd ynglŷn â gwario er mwyn uwchraddio'r lôn heibio Plas Glan yr Afon fel llwybr beicio o'r Waunfawr i Ros-bach a Chaernarfon. Mae'r datblygiadau diweddar i estyn y pwll clai yn

pryderu trigolion Penrhos a Rhosbach a bydd yr Adran Gynllunio yn cael eu hatgoffa o hawliau'r trigolion gwledig.

Gan fod ceir estron wedi dechrau rasio trwy'r hen bentref, mae'r Cyngor yn galw ar yr Heddlu i ymchwilio'r broblem ac adrodd i'r cyfarfod nesaf.

Gan fod tyfiant ochr y ffordd yn atal cerddedwyr o'r cae chwarae i'r llyn uchaf rhag gweld y traffig cyflym yn dod, bydd y Cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd dorri'r tyfiant.

SIOE LLANWINDA.

Llongyfarchiadau i Gwyneth a Dewi, 11 Erw Wen ar ennill gwobr gyntaf hefo casgliad o flodau gwyllt yn Sioe'r Mount.

ARHOLIADAU TGAU.

Llongyfarchiadau i Tom Evison a Geraint Roberts ar eu canlyniadau TGAU eleni.

MIRI HAF. Trwy gefnogaeth parhaol aelodau'r Tynfa Misol a rhoddion hael Hapchwaraewyr y Bêl Bonws yn Nhafarn Bryngwna, roedd Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro yn medru cynnal prynhawn o 'Miri Haf' ar y Cae Chwarae. Roedd rasmus, cestyll gwynt, saethu am goliau, cwrs golff un twll, peintio wynebau, cystadlaethau tynnu rhaff, arddangosfa ci achub ar y mynydd a hefyd cŵn poeth i'w bwyta. Mae'r Pwyllgor yn dra diolchgar i'r sawl a fu'n gefnogol i'r llwyddiant mewn unrhyw ffordd.

MAN CHWARAE I'R PLANT IAU. Ar ôl 10 mlynedd o ymdrechu mae JCB wedi agor y clawdd a gwaith wedi dechrau ar y man chwarae newydd. Yn anffodus, ni fydd yr ymgymerwr yn medru dechrau o ddifrif tan y bydd MANWEB yn ail-leoli'r is-orsaf a'r cebl trydan. GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Medi: Bydd Ysgol Sul i'r Plant am 11 o'r gloch ar ddyddiau Sul 3, 10, 17 a 24.

Yn anffodus, oherwydd prinder pregethwyr, mae'n amhosibl ar hyn o bryd hysbysebu'r gwasanaethau oedolion. HEL ACHAU. Mr Mr R. Owen, 9 Bro Cynan yn ceisio olrhain hanes ei deulu a fu'n byw yng Nghaeathro. Dyma'r hanes hyd yma:

Tŷ Gwyn, Caeathro
Barbara (3.3.1881 -)
Richard William (1813 -)
(1848 -) Margaret
Tai Glangwna, Caeathro
Margaret ()
Henri Williams, Llangian (1843 -)
(1865 -) Margaret
(1870 -) William
(1879 -) Barbara Laura
c1881 Pen y Cefnydd,
Plwyf Llanwnda.

A oes gan rhwyun gof am Margaret Williams, William Williams neu Barbara Laura Williams a oedd yn byw yn y teras dros ganrif yn ôl?

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £89.46 yng Nghaeathro gan Marian Hughes. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Bydd gweithgareddau'r tymor newydd yn cychwyn nos Fercher, Medi 13 yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 gyda Sioe Ffasiwn a lluniaeth ysgafn i ddilyn. Croeso cynnes i gyn-aelodau ac hefyd i unrhyw un a hoffai ymuno â'r gangen.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Ifan Rowlands, 23 Y Ddôl ar lwyddo mewn arholiad Piano, Gradd 6 yn ddiweddar, dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Brenhinol.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mary Madoc Jones, 14 Cremlyn ddiolch am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr iawn. **DIOLCH.** Dymuna Sheila Roberts, Darwin, Tan y Buarth ddiolch i ffrindiau, cymdogion a theulu am eu dymuniadau da ac am bob arwydd o gyfeillgarwch yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. **LLWYDDIANT EISTEDDFODOL.** Llongyfarchiadau i Sioned Meleri, Cefn Cynrig gynt, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli. Cafodd Sioned y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth Contralto ac roedd yn gystadleuydd cryf iawn am y Rhuban Glas nos Sadwrn. Llongyfarchiadau mawr Sioned a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Llion Jones ar ennill y Gadair yn yr Eisteddfod. Bu Llion a'r teulu yn byw yn Y Ddôl am gyfnod ychydig flynyddoedd yn ôl.

LLWYDDIANT YN YR ARHOLIADAU. Unwaith eto mae ieuencid yr ardal wedi disgleirio yn y byd addysgol. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc yn y dyfodol i bawb sydd wedi profi llwyddiant mewn coleg, ysgol a gwaith yn ystod yr haf.

CYDYMDEIMLO. Dydd Sadwrn, 19 Awst bu farw Mr Madog Owen, Bryn Hyfryd. Estynnwn bob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Dydd Iau, 20 Gorffennaf bu farw Mr Gwilym V. Pritchard, 3 Erw Ffynhonydd. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yma hefyd yn eu profedigaeth.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Ffion Williams, 20 Y Ddôl ar lwyddo gyda Rhagoriaeth mewn arholiad Ysgrifenedig Gradd 3 yn ddiweddar, dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Brenhinol.

CARTREF PRESWYL SANT TEILO. Mae pawb yn hynod ddiolchgar i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am eu rhodd o fainc i'r Gymuned. Mae defnydd mawr wedi ei wneud ohoni yn ystod y tywydd braf gan breswylwyr a chymdogion y pentref.

Cafodd y mwyafrif o breswylwyr y Cartref brynhawn bendigedig wedi ei drefnu drwy garedigrwydd Mr Robin Jones (Age Concern Gwynedd). Cynhaliwyd cyngerdd yn Meifod, Bontnewydd fel rhan o Wyl y Faenol brynhawn dydd Sadwrn, 26 Awst, a the bach i ddilyn.

Grŵp o'r enw Graffiti Quartet oedd yn swyno'r gynulleidfa. Pedwar o bobl ifanc medrus a brwdfrydig yn chwarae offerynnau cerdd ac yn canu. Cafwyd mwynhad mawr a llawer o hwyl.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Sioned Wyn Jones, 1 Bro Eglwys ar lwyddo gydag Anrhydedd mewn arholiad Piano Gradd 4, o dan nawdd Bwrdd yr Ysgolion Brenhinol.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar casglwyd y swm o £187.04 ym Methel gan aelodau o Ferched y Wawr, sef Mary Evans, Eirlys Williams, Mair Read, Rita Williams, Eryl Roberts, Gwyneth Williams, Beti Owen, Enid Williams a Jennifer Roberts. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

I gyfarch Sioned ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli.

I Sioned

Daw, wedi'r oriau tawel — o lafur
It lwyfan y gorwel
Yn arwain, drwy sain mae sêl
Yr achau, i'r tir uchel.

RLJ

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £63.96 yn Llanddeiniolen a Seion gan Glenys a Jenkin Griffiths. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

Darluniau Dyfrlliw

Os am luniau o olygfeydd lleol am brisiau rhesymol gan arlunydd lleol, cysylltwch â:
Rhiannon Williams,
Gwylfa, Waunfawr
(01286) 650125

DRAENOG



Does na'm digon o LE'N yr Eco i roi holl hanes un creadur anffodus. Mi fyddai'r papur yn FULL UP. Wedi mynd i helpu efo'r cychod ar Lyn Padarn yr oedd o, ac aeth o un helynt i'r llall. Mi gollodd o rwyf yn y llyn wrth drio cadw cwch ryw noson. Mi lwyddodd o i gael rhaff yn sownd yn y propelar wrth stwnan efo'r cwch achub. Ond dechrau'n unig oedd hynny. Pan gafwyd cwch achub newydd, mi eisteddodd

ynddo, a sigo'r sedd, nes ei fod ar ei hyd ar ei gefn yn y cwch. Ac eto, gwell bod ar eich cefn yn y cwch nag ar eich cefn yn y llyn. Wrth dynnu cwch i'r lan un pnawn, roedd ganddo un droed ar y cei ac un droed ar ymyl y cwch. Doedd o ddim yn disgwyl i'r rhwyfwr amhrofiadol wthio'r cwch oddi wrth y cei. Yn ara bach aeth un droed ymhellach oddi wrth y llall... nes iddo ddisgyn dros ei ben i'r llyn. Does dim gwir yn y si ei fod yn bwriadu mynd i'r môr efo'r dyn hwnnw o sir Fflint gafodd ei achub ddwsin o weithiau eleni!

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor eglurodd y clerc iddo ddwyn sylw Cyngor Gwynedd at y ffaith bod angen gwelliannau er diogelwch i'r plant ar Faes Chwarae Penisarwaun. Cafodd sicrwydd y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn y dyfodol agos, yn ogystal â gwaith cyffelyb ar Faes Chwarae Clwt-y-bont.

Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn yw Miss Phyllis Elis, ac fe etholwyd Len Jones, Deiniolen yn Is-lywydd.

Dim ond dau bentref drwy'r plwyf sydd wedi manteisio ar y cyfle i sicrhau safleoedd addas ar gyfer gosod biniau ail-gylchu, sef Bethel a Rhiwlas. Awgrymwyd safle gyferbyn â'r Post yng Nghlwt-y-bont fel safle, ac fe gytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau.

Bydd y canlynol yn cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgolion y Plwyf: Bethel — Idris Morris, Llanddeiniolen; Penisarwaun — Miss Phyllis Elis; Rhiwlas — Elwyn Morris.

Roedd y Clerc wedi trefnu i Menter Fachwen ddod ag un o'r meinciau i Ysgol Penisarwaun fel y gallai'r Cyngor gael golwg arni. Roedd yr aelodau yn fodlon iawn ar y gwaith ac yn llongyfarch staff y gweithdy ar eu gwaith.

Bwriedir gosod mainc ym mhob pentref drwy'r plwyf i ddathlu'r milflwydd a mawr obeithid y byddent yn cael eu parchu yn y gwahanol bentrefi. Mae'r meinciau eisoes wedi cael eu gosod ym Methel (Cartref Henod St Teilo) ac ym Mhenisarwaun (gyferbyn â'r eglwys).

Roedd 'na gryn anfodlonrwydd ynglŷn â gwasanaeth bysiau mewn sawl ardal, a chytunwyd i'r aelodau anfon eu cwynion penodol i'r Clerc neu i'w cynrychiolydd ar Gyngor Gwynedd. Cafwyd cwynion hefyd ynglŷn â'r ffaith fod sbwriel yn cael ei ddymchwel ar y maes parcio ger Marchlyn, a hefyd am fod sbwriel ar dir y llyfrgell yn Neiniolen.



ANGEN CODI CLODDIAU O UNRHYW FATH A FFENSIO?

Cysylltwch ag

R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216

WALIO

A
FFENSIO

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833



SLIM CHWIM MEWN DIM! heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!

ffonlwch (01286) 830609

— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathwrms
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Ar ôl mis o orffwys, er nad yw hynny yn hollol gywir oherwydd yr ydym fel gohebwyd wedi bod wrthi yn gweithio drwy fis Awst yn casglu yr hanesion erbyn y rhifyn yma o'r Eco. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau y gwyliu, ac os oeddynt yn gorfod disgwyl am ganlyniadau arholiadau, gobeithio iddynt gael canlyniadau wrth eu bodd.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod y canlynol yn Ysbyty Gwynedd. Mrs Betty Bowen, Tan y Marian a Mrs Laura Williams, Tan y Fron. Hyderwn y bydd y ddwy adref yn lled fuan wedi cael adferiad iechyd. Brysiwch adref eich dwy. Deallaf hefyd fod Mrs Laura Williams wedi cael llawdriniaeth i'w llygaid y mis diwethaf, a bod hynny wedi bod yn llwyddiant.

LLONGYFARCHIADAU. Yr wyf yn siwr ein bod fel ardal yn falch o glywed am lwyddiant Rhodri Elidir Tomos, sef ŵyr i Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, a mab i'r Canon Idris Thomas, Y Rheithordy, Trefor. Cafodd Rhodri radd Dosbarth Cyntaf mewn Mathemateg yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd, ac mae wedi ennill Ysgoloriaeth arbennig i wneud gradd uwch mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Caeredin yn yr Alban. Yr wyf yn hollol sicr y buasai ei ddiweddar daid, Hugh Thomas, wrth ei fodd. Da iawn chdi Rhodri.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN. Buasem, fel ardal, yn dymuno diolch yn fawr iawn i'r Cyngor uchod am ei rodd o sêl i'r ardal i gofio am y milflwyddiant. Mae wedi ei gosod yn yr Allt Ddu i wynebu i lawr at Gapel MC. Mae golygfa ardderchog o'r lle cyn yma.

YN ÔL I'W WREIDDIAU. Diwedd mis Gorffennaf treuliodd Peter Foulk Kern a'i wraig, Gloria, eu gwyliu hefo Mair Foulkes ym Mhenisarwaun. Roedd ei daid yn gefnder i'r diweddar William Rees Foulkes, Garnedd Wen, Fachwen. Bu Peter yn aros yn Garnedd Wen yn 1970 ac yn Mhenisarwaun hefo'i wraig yn 1983.

Mae'r ddau yn gerddorion proffesiynol. Peter yn chwarae'r fflwt a Gloria yn chwarae'r obo.

Mae'r ddau yn aelodau o gerddorfa enwog Pablo Casel yn Puerto Rico.

Er bod teulu Peter wedi ymfudo o Gwm Eilir, Nant Peris i America yn 1870 maent wedi dal i ddweud eu gras bwyd yn Gymraeg: 'Diolch i ti Iesu Grist am damaid o fwyd.'

Er nad yw Peter yn siarad Cymraeg mae'n ymwybodol iawn o'i wreiddiau ac yn hoffi treulio ei amser o gwmpas ardal ei wreiddiau. Mae'n gobeithio dod ar ymweliad eto yn lled fuan.

YMUNO Â'R FYDDIN. Fel ardal yr ydym yn dymuno yn dda i Dafydd ac Iwan Jones, 5 Bro Elidir. Mae y ddau wedi ymuno â'r fyddin ac wedi gadael cartref, cam reit fawr i'w gymeryd ac mae yn debyg fod Alwyn a Margaret yn eu colli ar yr aelwyd. Pob hwyl Dafydd ac Iwan i'r dyfodol.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANELLI. Dyma'r Eisteddfod y byddwn ni fel ardal yn gallu ei chofio am flynyddoedd i ddod. Fel y mae gan bob pregethwr Methodist dri phen i'w bregeth, byddwn ninnau fel ardal yn cofio yr Eisteddfod am dri rheswm, ac hefyd y mae'r tri person yn Fethodistiaid.

Y rheswm cyntaf — enillodd Eirug Wyn o Groeslon y Fedal Ryddiaith. Mae Eirug yn fab i'r diweddar Barch John Price Wynn a Mrs Wynn, Llanfairpwll. Bu Mr Wynn yn Weinidog ar yr Eglwys Fethodist yma yn Ninorwig.

Yna yr ail reswm — enillydd y Gadair oedd Llion Jones o Benrhosgarnedd a'i dad yntau, y diweddar Barch Isaac Jones wedi bod yn Weinidog ar Gapel MC.

Yna ar y nos Sadwrn i gael triawd cyflawn, enillodd Parti Bethan Bryn o Aberystwyth y wobwr gyntaf. Bethan eto yn un o blant yr ardal ac yn ferch i'r diweddar Barch Ieuan Bryn Williams a'r ddiweddar Beryl Bryn. Triawd cyflawn iawn, ond rhaid peidio anghofio Norman Closs Parry. Un arall o blant ardal y Fachwen a ddaeth eleni eto yn agos i gipio'r Goron, cyn hir fe ddaw rwy'n siwr. Paid rhoi i fyny, Norman.

Da iawn hwy a gallaf eich sicrhau ein bod fel ardal yn ymfrostio yn eich llwyddiant, a daliwch ati.

Y GANOLFAN. Ar nos lau, Awst 24 cafwyd pwyllgor o'r uchod. Yn bresennol oedd y Cyng Len Jones. Cafwyd dipyn o drin a thrafod am amryw o bethau a oedd yn codi o'r cofnodion. Y peth mwyaf a basiwyd yn unfrydol oedd fod yn rhaid newid cryn lawer ar y cyfansoddiadau. Bydd rhai o'r newidiadau yma yn dod i rym ar Fedi 1. Gobeithiwn y bydd y rheolau yn barod erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco.

CAPEL SARDIS. Yn hytrach na mynd i addoli yn eu capel eu hunain ar Sul cyntaf Awst, aeth llond bws o aelodau a phlant Sardis i Gartref Preswyl i'r Henoed ym Mryn Lliffon, Bangor. Cartref a sefydlwyd gan y Bedyddwyr ac a agorwyd y llynedd ar gyn safle'r

BBC ym Mryn Meirion yw Bryn Lliffon. Mae'n lle hardd a chyfforddus iawn. Mynd yno i gynnal Gwasanaeth i'r Henoed a wnaeth y plant. Buont yn canu emynau, darllen, adrodd, gweddio ac actio ac, ar derfyn y gwasanaeth, mynd o gwmpas yr henoed i sgwrsio, dangos lluniau o Ddinorwig a chapel Sardis, a rhannu melysion iddynt. Derbyniodd y plant hwythau ddiod oren cyn i bawb adael am Barc Menai i fwynhau cinio blasus a phrynhawn pleserus.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £47.86 yn Ninorwig gan Mr a Mrs Ifan Roberts. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

AM OFFER Tŷ A GARDD ...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275



Rhai o bobol Cwm-y-glo yn cyflwyno rhodd i Stephan Price Jones cyn ei daith i Fflorida.

PRIODASAU. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Tony a Sandra, Gwylfa; David a Iola, Mona, a Cynthia a Paul, Morannedd ar achlysur eu priodasau.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Joyce Jones, Bodelan yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Vaughan a Carys (Ynys Môn) ar enedigaeth eu merch fach, Buddug. Wyres fach i Miriam Llywelyn, 'Rallt Deg.

Llongyfarchwn hefyd blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau gan ddymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Enid Price a'r teulu, Stryd Newydd yn eu profedigaeth o golli chwaer sef Mrs Hilda Humphreys, Bontnewydd (gynt o Gwm-y-glo).

CAPEL Y TABERNACL. Nos Iau, Gorffennaf 27, 2000 bedyddiwyd David, mab Mr a Mrs Ashley Wager, Brynrefail.

Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams, gyda Mrs Cassie Thomas wrth yr organ.

Dymunwn wellhad buan i'r Parch Gwynfor Williams ar ôl derbyn triniaeth i'w law yn Ysbyty Llandudno.

Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i swyddogion Capel Presbyteriaid Brynrefail am gael ymuno gyda hwy i archebu y Llyfr Emynu Newydd a gyhoeddir ym mis Tachwedd. Yn ystod orig mis Awst mae peintwyr wrthi'n brysus yn peitnio tu mewn a thu allan yr eglwys.

Trefn yr oedfaon am fis Medi fydd:

Medi 3: Parch Trefor Jones am 5.30 yh

Gwraig Tŷ yn yr Ardd

Dyma fis y sioeau wedi mynd heibio: mis Awst. Bydd rhai wedi bod yn sioe fawr Amwythig lle byddai'r garddwr enwog, Percy Thrower, ac mae sioe Southport o'r un safon yn y gogledd, ond cyfle i'r garddwyr proffesiynol ddangos eu cynnyrch yw rhain ac mae'n dda i'r amatur ddysgu oddi wrthynt. Geiriau mawr Lloyd George oedd 'Mae arnaf eisiau dysgu,' ac os oedd un fel fo fe ddylen ninnau hefyd, yn yr ardd.'

Ond bydd amryw o sioeau bach yn y pentrefi yn dangos gwaith pobol gyffredin. Ar ôl llafurio a chwysu a chael boddhad a dipyn o hwb hefyd. Cofiaf am un di-ardd yn anfon dail carn yr ebol i mewn, ond doedd dim twyllo ar y beirniad profiadol.

Y mae'r llwyni blodau wedi bod yn lliwgar iawn. Mae un yn arbennig, o'r enw Potentilla, sy'n llawn blodau melyn sengl o fis Mehefin hyd fis Hydref.

Y mae'r Hydrangea (tri lliw ar ddeg, ond coeden ddŵr y'i gelwid gynt) yn gyffredin iawn mewn gerddi bach, ac yn amrywio mewn lliw. Rhai glas ydyw'r ffeffryn gan lawer ond, cefais damaid gan ffrind ac nid yw wedi troi allan yr un lliw yn

Medi 10: Cymafa Ganu Annibynwyr Sir Gaernarfon yn Salem, Caernarfon am 5.30 yh
Medi 17: Parch Gwynfor Williams am 4.00 yh
Medi 24: Parch Huw John Huws am 4.30 yh

fy ngardd i! Ansawdd y pridd yn wahanol mae'n debyg. Maent yn hawdd iawn i'w tyfu o doriad ym mis Medi, felly gofynnwch am ddarn bach gan rywun.

Mae'r coed rhosod wedi bod yn dda ac yn ffeffryn am eu perarogl. Mae yma un goeden felyn eto o'r enw Hypericum (Rhosyn Saron ar lafar gwlad — hardd iawn — a'r emynwyr yn ei defnyddio yn eu hemynau). Mae'r climatis sy'n dringo yn lliwgar ac yn boblogaidd iawn hefyd.

Bydd arnaf hiraeth am a fu yn aml. Rwyf, yr haf yma, yn prynu mefus o'r siop ond does dim o'r un blas arnynt â'r rhai a dynwyd o'r ardd fesul un, a'i bwyta'n syth. Nid ydynt mor felys, a'r mafon coch yr un fath.

Mae cyrainj duon bellach yn eu tymor a dyma jam y gellir ei wneud ohonynt:

Pwys o gyrainj (duon); pwys a hanner o siwgr; tri chwarter peint o ddŵr.

Medi, fis fy serch meddai'r bardd am fis y cynhaeaf. Dyma ddechrau ar yr afalau. Mae rhai afalau Awst hefyd.

Rhaid cadw'r celfi garddio a'u glanhau dros y gaeaf a'u hiro â saim. Cyfeiriem ers talwm at y glaw yn dod mewn sgrympiau Gwyl Grôg, pan fyddai'r ffermwyr yn glanhau eu pladurau a'u hiro a'u crogi dan do i sychu i fod yn barod at y flwyddyn nesaf. O flaen y tân byddwn ninnau yn edrych ar y catalogau a gweld y blodau hardd y gellir eu tyfu.

Hwyl hyd y Gwanwyn.

Cyfres Newydd

AMDANI


'Sgen ti
sws i mi?

Bob nos Sul
Yn cychwyn Medi 17

TRANSL888/889
www.s4c.co.uk

S4C

CROESAIR MEDI



ENW.....

CYFEIRIAD.....

.....CÔD POST.....

Wrth ddarllen trwy Gyfansoddiadau a Beirniadaethau'r Eisteddfod fe sylweddolais fod gwobrau i'w cael am gyfansoddi pob un o'r atebion nad oes cliwiau iddynt.

Ar Draws

1. Bwndel bach sydd wedi camu yn Saesneg (5)
11. Mwyth i wr sy'n torri i mewn (7)
12. Cwmni diddorol yn y coed! (5)
13. Rhan o wlad neu dalaeth (3)
14. O aur! (6)
15. Mynd i gyfeiriad arbennig (5)
16. Dyn merchetaidd (4)
19. Trên yn cario carthffosiaeth? (5)
23. Brasil heb ei dysgwr Saesneg yn arwain i ddrygioni (5)
25. Yn chwalu am fod yn orhoff o'r llanc (8)
27. Gofidiau (8)
29. R yng nghanol C ar ôl G i asio (5)
33. Cosbi rhywun am ddrwg a wnaeth (4)
37. Adar ar fwrdd cinio'r Nadolig? (6)
41. Cynnal un yn llai na 33 ar draws (3)
42. Tair yn dychwelyd o gwmpas dechrau Ebrill i greu stŵr (5)
43. Nid doeth i ni fod yn 'starkers' (7)
44. Saethwr (6)
45. Ceidwadwr yn newid cyfeiriad? (4)
46. Gwialen neu frigyn ystwyth (5)
5. Mae dryswch mulod yn hyfryd (7)
7. Adar benywaidd (4)
8. Y wlad fwy'n y byd (5)
9. Tân yn tasgu o ddarnau bychain o goed (9)
10. Gyda'i gilydd (4)
17. Un ar ben y llall, fel cacen briodas (6)
18. Tynged (4)
20. Asgel Diana? (5)
22. Yn ymwneud â'r llinynnau sy'n trosglwyddo teimladau rhwng y corff a'r ymennydd (6)
24. Casgen seithfed arwydd meddw y sidydd (5)
25. Wedi ei ddewis (9)
26. Ynghyd â (4)
30. Dirmygus (7)
31. Mae ynn yn y brig yn aflan (7)
32. Daearell ple y cedwid carcharorion ers talwm (7)
34. Pruddglwyf yn ffrwydro yn y post? (5)
36. Wedi sigo o'i anaf (4)
38. Mae'n fwy o lawer na'r hyn a welir rhwng Talacre a Dinbych (5)
39. Dwylo llong (4)
40. Doli feddw yn ymwneud â'r mwyafrif o'r atebion cudd (4)

Roeddwn yn falch o gael cyfarfod nifer ohonoch ar faes yr Eisteddfod ac ar y maes carafanau, ac fel yr awgrymodd un ohonoch, mae'r Eisteddfod yn cynnig thema croesair y mis hwn. Gyda llaw, roedd OERGELL a RHEWGELL yn dderbyniol fel ateb i 36 ar draws

I Lawr

2. Mae aderyn ifanc, ffres yn addas (5)
3. Y rhai sy'n methu gweld (7)
4. Pennaeth adran mewn coleg (4)

DYDDIADUR MEDI

- Sul 3:** **PENISARWAUN.** Cymanfa Ganu yn Eglwys y Santes Helen.
- Llun 4:** **DEINIOLEN.** Cyfarfod o Gymdeithas Eglwys Llandinorwig.
- Maw 5:** **PENISARWAUN.** Cyfarfod Blynnyddol Pwyllgor y Neuadd.
- Iau 7:** **PENISARWAUN.** Noson Goffi yn y Neuadd Gymuned.
- Gwe 8:** **PENISARWAUN.** Taith gerdded o dan arweiniad Leslie Larsen.
- Sul 10:** **CAERNARFON.** Cymanfa Ganu'r Annibynwyr yng Nghapel Salem.
- Mer 13:** **BETHEL.** Merched y Wawr - Sioe Ffasiwn.
- Iau 14:** **BRYNREFAIL.** Cymdeithas y Capel gyda Mrs Annette Bryn Parri.
- Llun 18:** **DEINIOLEN.** Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr — sgwrs gan Alun Ffred Jones.

WYTHNOS DATHLU CANMLWYDDIANT YSGOL BRYNREFAIL

- Sad 23:** Arddangosfeydd etc yn yr Ysgol o 11 hyd 4.
- Sul 24:** Oedfa o Ddiolchgarwch yn Capel Coch am 2.30 y pnawn.
- Llun 25:** Noson o Atgofion yn yr Ysgol am 7 o'r gloch.
- Iau 27:** Perfformiad o 'Babi Bach y Wern' am 7 o'r gloch.
- Gwe 29:** Cyngerdd yn yr Ysgol am 7 o'r gloch.



yng nghroesair Gorffennaf.

Derbyniais atebion gan Jennie Williams, Rhiannon Pritchard-Jones ac M.P. Jones, Clynnog; Nansi Davies, Rhuthun; Rosemary Williams ac Elizabeth Roberts, Tregarth; Olwen Owen, Nan Owen a Moreen Lennon, Llanberis; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; D.B. Jones a Ceridwen Williams, Llanrug; Alice M. Griffith, Dinorwig; Eluned Jones, Trefor; Elfed Evans, Llanllechid; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Mabel Parry, Porthmadog; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E.E. Jones, Rhoshirwaun ac N. Hughes, Cwm-y-glo.

Enillydd £5 y mis hwn ydi Alice M. Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig, LL55 3ES. Anfonwch atebion croesair Medi at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Medi 18.

RHODDION

£25: Mrs Catherine Owen, Erw Wen, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

£10: Gwyneth Parry, Dôl Erw, Bethel.

£5: Mary Madog Jones, 14 Cremlyn, Bethel; Teulu 'Hafle', Rhes Faenol, Deiniolen; Miss Betty Roberts, 2 Garth Drive, Gaerwen; Mrs Dilys Evans, Min y Don, Brynrefail; Mrs K. Griffiths, 23 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Catherine Ll. Williams, Rallt Goch, Llanberis; Mrs Betty Humphreys, Nant, Llanberis; Nia ac Eric d/o Swn-y-gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis.

£3: Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog, Deiniolen; Margaret ac Ellis Wyn, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mrs Mai Jones, 17 Glanmoelyn, Llanrug.

£2: Ian a Mari, 3 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs Sally Lewis, 5 Bro Deiniol, Deiniolen.

GWERSI PIANO

OEDOLION/PLANT

CYSYLLTWCH Â
MAIR HUMPHREYS AR:
(01286) 674339



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

CHWARAEON

Mabolgampau Ysgol Brynrefail

Unwaith eto eleni cafwyd diwrnod llawn ymdrech a chystadleuol. Gwn fod llawer o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn hoffi cadw cysylltiad a gweld sut roedd yr 'hen dŷ' wedi gwneud. Ar ddechrau'r milflwydd Elidir ddaeth i'r brig gyda 721 pwynt, yna Eilian (639), Eryri (628) a Gwynrfai (625). Cafwyd sawl perfformiad da a'r bechgyn mwyaf llwyddiannus yn ôl eu blynyddoedd oedd Joseph Simpson (7), Michael Hughes (8), Ryan Davidson (9), ac yn gydradd ym mlwyddyn 10 roedd Owain Morris a Jonathan Gordon.

Yng nghystadleuaeth y merched y prif enillwyr oedd

Angharad Jones (7), Sarah Perrin (8), Ailsa Orlik (9) a Gwenno Thomas (10).

Yn ôl traddodiad cyflwynwyd y prif dlws i'r bachgen a'r eneth gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau a enillwyd yn ystod y dydd. Aeth tlws y bechgyn i Michael Hughes (8) o dŷ Eryri gyda 40 pwynt a thlws y merched i Ailsa Orlik (9) hefyd o dŷ Eryri, hithau hefyd gyda 40 pwynt. Llongyfarchion i'r ddau ohonynt, yn enwedig Ailsa. Mae hi wedi ennill Victrix Laudorum yr ysgol bob blwyddyn ers iddi fynychu'r ysgol. Tipyn o gamp. A gyflawnwyd y 'tri ar y tro' yma o'r blaen tybed? Oes rhywun o'r cyn-ddisgyblion yn cofio?



Michael ac Ailsa

Ymweliad Tîm Criced Morgannwg

Yr haf yma bydd tîm Morgannwg yn ymweld â'r gogledd ddwy waith. Yn ystod mis Awst cynhaliwyd y gemau traddodiadol ar faes Bae Colwyn. Gwn fod llawer o fro'r Eco yn ymweld â'r gemau hyn.

Y tymor yma ceir ail gyfle, a hynny yn nes adref. Ar ddydd Sadwrn, Medi 23 bydd Morgannwg yn chwarae ar faes Tŷ Newydd, Llandegai, cartref clwb Dinas Bangor.


Mae'r gêm yn rhan o raglen blwyddyn tysteb y troellwr Robert Croft. Bydd yr ymwelwyr yn herio tîm cymysg o glybiau Bangor a Bethesda. Bydd y gêm yn cychwyn am 1pm. Tâl mynediad fydd trwy raglen yn costio £1.00. O dan amodau y cytundeb, bydd nifer fawr o aelodau rheolaidd tîm cyntaf Morgannwg yn ymddangos. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar y diwmod.

Y diwrnod blaenorol — dydd Gwener — bydd cystadleuaeth golff ar gwrs golff Caernarfon. Y syniad yw cael tîm o 4 — tri chwaraewr yn ymuno gydag un o'r sêr. Os oes gennych ddiddordeb i ffurfio tîm o dri cysylltwch â'r trefnydd:

VIVIAN EVANS
(Ffôn: 01248 600667).

Dechrau'n Ieuan

Clywn yn aml am dimau pêl-droed neu rygbi dan naw. Mae'n ymddangos fod tenis erbyn hyn yn denu yn ifanc iawn. Bu dwy ferch leol yn cynrychioli tîm 7 oed Gwynedd mewn twrnament yn yr Wyddgrug. Bu'r ddwy, Catrin Jones a Mari Wyn Pritchard yn llwyddiannus, gan i'r tîm gyrraedd yr ail safle allan o'r chwe tîm oedd yn cystadlu.



Haeddu Medal

A hithau'n flwyddyn Olympaidd bydd cryn ymgiprys am uchafbwynt unrhyw un ym myd y capau, sef y fedal aur. Ydych chi'n cofio campau Mark Spitz yn y pwll nofio ganol y 70'au. Aeth adref gyda helfa o saith medal aur. Un peth calonogol ymysg y campau erbyn hyn yw'r camau breision a gymerwyd i integreiddio yr anabl i'r prif gystadlaethau. Un o'r nosweithiau mwyaf dylanwadol i mi'n bersonol oedd cael cwmni yr anhygoel Tanni Gray, â'm llwyr lorio gan ymroddiad yr athletwraig ryfeddol hon.

Yn ddiweddar daeth Chwaraeon Mileniwm Cymru i bobl ieuanc ag anabledd i'r gogledd. Roedd dau brif leoliad — y nofio ym mhwl Bangor a'r athletau ar drac Parc

Eirias ym Mae Colwyn. Yn amlwg mae cryn baratoadau, a braf cyhoeddi am y nifer o ieuenctid lleol a wirfoddolodd i helpu. Un o sêr y gystadleuaeth oedd Iwan Morris, Treflys, Bethel. Mae Iwan yn mynychu ysgol Pendalar. Bu Iwan yn serennu yn y pwll nofio ac ar y trac. Fel Mark Spitz daeth Iwan adref gyda 7 medal — dwy aur, tair arian a dwy fedal efydd. Cafodd ddwy fedal aur a dwy arian ac un efydd yn y pwll. Daeth medal arian arall ar y trac ac un arian arall am daflu pêl.

Yn yr un cyfnod bu Gareth Roberts o Lanrug yn hynod lwyddiannus unwaith eto mewn sawl camp. Diolch i'r ddau am eu dycnwch. I ni sy'n gwyllo llawer gormod o gampau ar y teledu, mae'r ddau yma'n ein herio.

Pencampwr Cymru

Llongyfarchiadau i Colin Donnelly o Ddinorwig ar ennill Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Cymru am eleni. Roedd y Pencampwriaeth yn cynnwys chwech o rasys: dwy fer, sef Pen y Fan a Rhewl; dwy ganolig, sef Moel Eilio a Chader Idris; a dwy hir, sef Nant y Moch a Bannau Brycheiniog. Roedd yn rhaid cystadlu mewn un ras o bob categori ac unrhyw un arall. Daeth Colin yn gyntaf drwy Gymru yn rاس Rhewl, Moel Eilio, Cader Idris a Nant y Moch. Yn ogystal â Phencampwriaeth Cymru enillodd

hefyd y gystadleuaeth i ddynion dros 40 oed drwy Gymru.

Yn y gystadleuaeth hefyd, daeth Dafydd Thomas o Lanrug yn bedwerydd yn yr adran dros 40 oed ac yn ail yn yr adran dros 50 oed. Yn drydydd yn yr ardan dros 50 roedd Ollie Burrows, rheolwr siop Joe Brown, Llanberis.

Mae Colin ar hyn o bryd yn arwain y gystadleuaeth i ddynion dros 40 oed ym Mhencampwriaeth Prydain, gyda dwy ras yn weddiill cyn diwedd Medi. Pob dymuniad da iddo hefyd yn cynrychioli'r Alban ym Mhencampwriaethau'r Byd yn yr Almaen yn ystod y mis.

Cystadleuaeth yr Eco - Proffwydo'r Enillwyr

Yn y colofnau hyn, ceisiaf yn aml adlewyrchu cyn gymaint o wahanol gampau ag sy'n bosibl. Nid yn unig mae hyn yn adlewyrchu ystod eang y campau yn lleol, ond y diddordeb mawr sy' gan lawer ohonoch mewn aml gamp. Yr wyf yn ymwybodol hefyd mor 'gystadleuol' yw dilynwyr y campau. Yn rhannol mewn hwyl, ond eto o ddifrif, rwyf wedi cynllunio cystadleuaeth i

wneud i chwi broffwydo'r enillwyr. Isod, mae rhestr o wahanol gystadlaethau. Eich camp chwi fydd proffwydo'r enillwyr.

Yr enillydd fydd y sawl gyda'r rhif mwyaf yn gywir. Y dyddiad cau fydd MEDI 30, 2000. Gellir danfon y ffurflen isod i mi, i'r cyfeiriad arferol. Beth am gystadlu fel unigolyn, neu fel tîm penodol. Nid oes tâl cystadlu. Y wobwr fydd TOCYN LLYFR — gwerth £20.

Ffurflen Proffwydo

Enw:

Cyfeiriad:

Enillwyr:

- a) Y 'Premiership' Pêl-droed
- b) Cynghrair Cymru:
- c) Cwpan Pêl-droed Cymru:
- ch) Cwpan F.A. Lloegr:
- d) Pencampwriaeth Rygbi'r 6 chwlad:
- dd) Cynghrair Rygbi Cymru/Alban:
- e) Pencampwr Snwcer y Byd 2001:
- f) Pencampwr Tennis (Dynion) (Wimbledon 2001)
- ff) Pencampwr Tennis (Merched):..... (Wimbledon 2001)

Digon i chwi gnoi cil arno. Cawn weld pwy fydd prif broffwyd yr ardal ymhen ychydig fisoedd. Beth

am gystadlu felly a chreu diddordeb dros y gaeaf. Pob lwc gyda'r proffwydo.